



Comisiwn Ffiniau  
i Gymru

Boundary Commission  
for Wales

Comisiwn Ffiniau  
i Gymru

# Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol: Cynrychiolaethau

Cyrol 6: 9623-9700

BCW-9623/ [REDACTED] / Caerdydd



Comisiwn Ffiniau i Gymru

Tŷ Hastings

Llys Ffitsalan

Caerdydd

CF24 0BL

Annwyl Syr/Madam,

### **Adolygiad Seneddol 2023 – Cynigion Cychwynnol**

Wrth ymateb i'ch Adroddiad ar y Cynigion Cychwynnol ar gyfer Adolygiad Seneddol 2023, rwy'n ysgrifennu at y Comisiwn i dynnu sylw at rai o'r heriau y gallai'r Is-adran Gwasanaethau Etholiadol yng Nghyngor Caerdydd eu hwynebu pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu. Ymateb gan swyddogion yn unig ynghylch elfennau technegol y cynigion yw hwn, ac nid sylwadau gan y cyngor cyfan ynglŷn â'r ymgynghoriad, oherwydd mae'n bosibl y bydd pleidiau gwleidyddol yn ymateb ar wahân.

Cydnabyddir y gwaith a gyflawnwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru wrth baratoi'r set gyntaf o gynigion drafft sy'n cynnwys:

### **Canol Caerdydd**

- Ychwanegu Llanrhymni (*a arferai fod yn rhan o Dde Caerdydd a Phenarth*)
- Ychwanegu Tredelerch (*a arferai fod yn rhan o Dde Caerdydd a Phenarth*)

### **Gogledd Caerdydd**

- Ychwanegu Ffynnon Taf (*a arferai fod yn rhan o Bontypridd / Rhondda Cynon Taf*)

### **De Caerdydd a Phenarth**

- Tynnu Llanrhymni allan (*a'i symud i Ganol Caerdydd*)
- Tynnu Tredelerch allan (*a'i symud i Ganol Caerdydd*)
- Ychwanegu Dinas Powys (*a arferai fod yn rhan o Fro Morgannwg*)

### **Gorllewin Caerdydd**

- Ychwanegu Pont-y-clun (*a arferai fod yn rhan o Bontypridd / Rhondda Cynon Taf*)

Bydd y newidiadau arfaethedig yn arwain at gynnydd o 15,304 o etholwyr (o gymharu â mis Mawrth 2020) dros y pedair etholaeth yng Nghaerdydd, a fydd yn golygu dau drefniant trawsffiniol â Bro Morgannwg (yn achos De Caerdydd a Phenarth) a Rhondda Cynon Taf (yn achos Canol Caerdydd a Gorllewin Caerdydd).


Nodir bod y newidiadau i etholaethau'n adlewyrchu nodau'r Comisiwn o ran cwota etholiadol y DU, ond dylid nodi y bydd y cynnydd yn effeithio ar adnoddau ar gyfer Cyngor Caerdydd.

Mae'n anochel y bydd y newidiadau arfaethedig yn peri dryswch i etholwyr wrth i gyfanswm o naw ward gael eu cymryd o ddau awdurdod lleol arall. Mae hynny'n golygu y bydd y gofrestr etholiadol yn cael ei rheoli gan yr awdurdod sy'n ildio'r ward ond bod yr etholiad yn cael ei reoli gennym ni, sef yr awdurdod sy'n cymryd y ward. Mae etholiadau trawsffiniol yn achosi sawl her, oherwydd yn aml bydd gan awdurdodau sy'n ffinio â'i gilydd fathau gwahanol o feddalwedd ar gyfer rheoli etholiadau, na fyddant bob amser wedi'u hintegreiddio yn ddigonol â'i gilydd i weithio'n effeithiol. At hynny, ni fydd etholwyr yn aml yn siŵr â phwy y dylent gysylltu, yn dibynnu ar natur eu hymholiad – tîm y gofrestr etholiadol neu'r tîm etholiadau.

At hynny, bydd y cynnydd mewn gweithgarwch gweithredol trawsffiniol yn achosi cymhlethdodau ar gyfer unrhyw etholiadau cyfun yn y dyfodol, ar ben yr heriau yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd yng Nghymru o ran y newidiadau i etholfraint, yng nghyswllt pleidlais i bawb pan fyddant yn troi'n 16 oed a phleidlais i wladolion tramor cymwys.

Hyderaf fod yr uchod yn ymdrin â'r pryderon mwy technegol eu natur sydd gennym o safbwynt gweinyddwr etholiadol.

Yr eiddoch yn gywir,



**BCW-9624 / [REDACTED] / Abertawe**

Mae Cyngor Tref Pontardawe yn anghytuno â'r cynnig am y rhesymau canlynol: Mae'r Cyngor Tref yn anghytuno â'r gostyngiad yn nifer y seddi Cymreig Maent hefyd yn teimlo bod etholaeth Aberhonddu a Maesyfed eisoes yn ardal ddaearyddol fawr dros ben sy'n anodd ei chynrychioli Daw Pontardawe o dan Gyngor Bwrdeistref Sirol, llu Heddlu a Bwrdd Iechyd gwahanol i'r mwyafrif o ardaloedd etholaeth wreiddiol Brycheiniog a Sir Faesyfed Fel ardal ôl-ddiwydiannol, mae Cwm Tawe yn profi materion sy'n llawer mwy cyffredin â Chwm Nedd nag ardaloedd ym Mhowys sy'n wledig yn bennaf

**BCW-9625/ [REDACTED] / Abertawe**

Rwy'n anghytuno â'r bwriad i'n huno ni â Gŵyr; mae'n ymgais i droi'r fantol o blaid totalitariaeth drwy jerimandro, sy'n rhywbeth yr wyf yn ei erbyn fel rhywun sy'n credu mewn democratiaeth. Does dim angen gwneud y newid hwn ar hyn o bryd fel rwy'n teimlo, a hoffwn leisio fy ngwrthwynebiad yn unol â'r bwriad.

**BCW-9626/ [REDACTED] / Llanybydder**

Er bod y bwriad i uno Ceredigion ag ardal arfordirol orllewinol Sir Benfro yn gwneud rhywfaint o synnwyr yn ddaearyddol, byddai'n golygu bod dwy ardal hollol wahanol i'w gilydd yn dod ynghyd yn wleidyddol. Mae'n siŵr o greu tensiwn ac anghytundeb a fydd yn arwain at sefyllfa wleidyddol ddiddatrys yn y Cyngor Sir newydd. Efallai y byddai'n well pe bai Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn uno â'i gilydd.



**BCW-9627/ [REDACTED] / Aberystwyth**

Yn ôl pob golwg, y bwriad yw gwanhau pleidlais Plaid Cymru a bod o fantais i'r blaid Doriaidd nad yw'n cynrychioli safbwyntiau ardaloedd gwledig a Chymraeg eu hiaith Cymru. Mae'n ymddangos mai ymgais gan San Steffan i gipio grym, a dim byd arall, yw'r holl nonsens hwn.

**BCW-9628 / [REDACTED] / Cil-y-coed**

Dydw i ddim yn cytuno â'r bwriad i leihau nifer yr Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli etholaethau yng Nghymru. Yn ogystal, dydw i ddim yn hapus bod yr Aelod Seneddol lleol y gwnes i bleidleisio drosto i gynrychioli Dwyrain Casnewydd yn cael ei ddisodli gan yr Aelod Seneddol dros Sir Fynwy, nad ydw i erioed wedi cael cyfle i bleidleisio drosto.

**BCW-9629 / [REDACTED] / Caerffili**

Rwy'n byw 10 munud yn union yn y car o Ysbyty Athrofaol Cymru. Er hynny, yr ysbyty sydd wedi'i ddynodi ar gyfer ardal Caerffili yw Ysbyty'r Faenor yng Nghwmbrân. Mae'n hollol hurt. Mae'r ysbyty hwnnw 40 munud i ffwrdd yn y car, ac er mwyn mynd yno ar fws rhaid i chi deithio ar dri bws. Ar y llaw arall, dim ond un bws neu drên mae angen ei gymryd i fynd i Ysbyty Athrofaol Cymru, o Gaerffili i Heath Halt. Cyn 1996 roeddem yn perthyn i hen awdurdod Morgannwg Ganol, a oedd yn dod dan Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd. Er mwyn y mawredd, nid yw Ysbyty'r Faenor yn dderbyniol, nac Ysbyty Ystrad Fawr chwaith. Ysbyty bach yw hwnnw, ac mae pobl Caerffili yn haeddu gwell.

**BCW-9630 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Alla i ddim deall manteision rhannu Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn alinio'r etholaeth yn rhannol â Phorthcawl. Rydw i hefyd yn ei chael yn anodd deall y rheswm dros alinio Porthcawl a Phort Talbot â'i gilydd, ar wahân i'r ffaith eu bod yn rhannu'r un arfordir. Mae gwasanaethau, cysylltiadau trafnidiaeth a chymunedau'n tueddu i gysylltu Pen-y-bont ar Ogwr â Phorthcawl, oherwydd ffiniau sirol presennol.

**BCW-9631 / [REDACTED] / Crymymch**

Rydwy i'n hollol fodlon â'r cynigion ynglŷn â ffiniau newydd. Yn y pen draw, alla i ddim gweld y byddant yn newid y sefyllfa sydd ohoni, oherwydd gan fod miloedd yn fwy o bobl yn byw yn nhrefi a dinasoedd y de bydd llawn cymaint o etholaethau etholwyr trefol i'w cael yno, a fydd yn gwrthbwyso nifer yr etholwyr gwledig sydd yng nghefn gwlad. Bydd yr etholaethau trefol yn llai o ran maint ond bydd mwy ohonynt, fel sy'n wir yn awr.

**BCW-9632 / [REDACTED] / Rhuthun**

Mae'n hollol hurt bod fy nghod post yn cael ei gynnwys yn Nelyn, a ninnau'n gyfan gwbl yn Nyffryn Clwyd, ac rydym yn byw ein bywyd i gyd yn y Dyffryn. Rydym yn siopa yn Rhuthun, nid yn yr Wyddgrug, ac rydym yn gweithio yn y Dyffryn yn bennaf. Nid Sir y Fflint ddiwydiannol mohonom, ond Sir Ddinbych wledig. Beth yw diben chwarae â ffiniau sydd eisoes yn foddhaol?

**BCW-9634 / [REDACTED] / Cil-y-coed**

Yn gyntaf, nid yw'r llywodraeth Geidwadol hon wedi rhoi llawer o gyhoeddusrwydd i'r newid arfaethedig hwn. Dyw hynny ddim yn syndod, oherwydd mae'n siŵr mai chi a neb arall fydd yn elwa ohono. Dydw i ddim yn cytuno â'r cynnig hwn a hoffwn wrthwynebu eich bwriad i newid y ffiniau, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar allu fy ardal i ethol ymgeisydd Ceidwadol yn lle ymgeisydd Llafur.

**BCW-9634 / [REDACTED] BCW-9633 /**

Mae cynnwys codau post Dyffryn Clwyd yn Nelyn yn anghywir. Rydym yn byw yn y Dyffryn, yn mynd i'r ysgol yn y Dyffryn, yn gweithio yn y Dyffryn, yn mynd at feddygon ac i ysbytai yn y Dyffryn, yn siopa yn y Dyffryn, yn cael ein claddu yn y Dyffryn. Nid ydym yn ymwneud fawr ddim â Delyn, er mor braf yw bywyd yno efallai. Pam mae angen chwarae â ffin sy'n hollol foddhaol?

**BCW-9635 / [REDACTED] / Cas-gwent**

Mae'n well gadael Dwyrain Casnewydd yn gyfan, oherwydd mae'n ardal drefol sy'n llawn tai; ardal wledig yw Sir Fynwy. Mae ein hanghenion a'n pryderon yn wahanol. Ardaloedd gwledig yn bennaf sydd yn Sir Fynwy ar hyn o bryd, felly mae'n adlewyrchu ein pryderon yn well. Bydd anghenion Dwyrain Casnewydd yn cael eu disodli gan anghenion Sir Fynwy a fydd yn drech na nhw. Mae Dwyrain Casnewydd yn tyfu'n gyflym hefyd a dylai fod gan yr ardal etholaeth lai o faint, oherwydd bydd yn etholaeth fawr yn fuan oherwydd gwaith adeiladu yn yr ardal.

**BCW-9636 / [REDACTED] / Cil-y-coed**

Tynnwyd fy sylw at y ffaith bod y newidiadau i ffiniau'n golygu y bydd tref Cil-y-coed yn symud o Ddwyrain Casnewydd i Sir Fynwy. Rwy'n anhapus iawn ynglŷn â hynny ac rwy'n teimlo bod y newid yn annemocrataidd. Gwnaethom bleidleisio i gael Jessica Morden yn Aelod Seneddol i ni. Bydd y symud hwn yn newid y bleidlais honno a bydd gennym Aelod Seneddol na wnaethom bleidleisio drosto.

At hynny, ni fydd ein hetholaeth yn un o faint rhesymol mwyach, a byddwn yn cael ein llyncu gan etholaeth enfawr.

Hoffwn awgrymu, os oes rhaid i ni newid, bod Dwyrain Casnewydd a Gorllewin Casnewydd yn uno â'i gilydd.

Diolch am neilltuo amser i ddarllen fy sylwadau.

[REDACTED]

**BCW-9637 / [REDACTED] / Wreccsam**

Mae cynghorau ledled Cymru yn wynebu anawsterau ariannol, felly faint y bydd yn ei gostio i weithredu'r holl newidiadau hyn? At hynny, faint o dai fydd yn cael eu colli ar draws Wreccsam? Llai o dai, llai o refeniw.

Ni ddylem hyd yn oed fod yn trafod hyn yn yr hinsawdd sydd ohoni.

**BCW-9638 / [REDACTED] / Talsarnau**

Mae'r cynigion cychwynnol ar gyfer Dwyfor Meirionnydd yn edrych yn fwy cyson â daearyddiaeth yr ardal ond nid yw hynny'n fawr o gysur i Arfon, a bydd y newidiadau'n arwain yn gyffredinol at wanhau ymwneud/atebolrwydd gwleidyddol yn lleol. Yn ogystal, hoffwn ddweud bod llai o ddyfnder yn perthyn i'r fersiwn hon o Ddwyfor Meirionnydd, a'i bod yn cynnwys ystod eang o wahanol diriogaethau a gwahanol economïau lleol sydd wedi'u bwndelu gyda'i gilydd yma, sy'n wir ers peth amser.

Mae angen i'r meini prawf gael eu cysylltu â phob newid arfaethedig ynghyd â rhywfaint o gyfiawnhad. Os cyfiawnhad economaidd yn unig sydd dros y newidiadau, a'u bod yn cael eu gyrru gan gynlluniau i'r blaid Seisnig sy'n llywodraethu gynnal ei rheolaeth ar y system bresennol (sef y system cyntaf i'r felin), yna dim ond ar ôl newid y system etholiadol er mwyn gallu cael cynrychiolaeth fwy cywir ar gyfer etholwyr ledled Cymru a'r DU y dylid cytuno ar unrhyw newidiadau.

**BCW-9639 / [REDACTED] / Cil-y-coed**

Dydw i ddim yn credu y bydd symud ffin ddwyreiniol etholaeth Sir Fynwy i gyfeiriad Casnewydd o fantais i drigolion Cil-y-coed, Magwyr a Gwndy. Ardal faestrefol â diwydiant ysgafn yw'r ardal hon yn bennaf ac nid oes ganddi lawer yn gyffredin â nodweddion economaidd-gymdeithasol cefn gwlad Sir Fynwy. Nid yw anghenion y ddwy ardal yr un fath. Efallai y byddai'n fwy priodol i'r ardal i'r de o'r M4 gael ei gadael yn ardal Casnewydd.

**BCW-9640 + 9641 [REDACTED] / Caer-went**

Rwy'n gwrthwynebu yn gryf iawn y bwriad i ychwanegu Dwyrain Casnewydd a Chil-y-coed at yr etholaeth hon. Yn ddaearyddol, Sir Fynwy yw etholaeth fwyaf yr ardal leol yn barod ac mae ganddi boblogaethau trwchus o fewn ei ffiniau. Rwyf hefyd o'r farn bod ailddiffinio terfynau etholaethau'n annemocrataidd, yn enwedig pan fo'r cynlluniau arfaethedig yn disodli sedd sy'n perthyn i wrthblaid ac y bydd yr etholwyr wedyn yn cael eu llyncu gan etholaeth sydd eisoes yn fwy o lawer o faint, lle mae David Davies o'r Blaid Geidwadol eisoes yn Aelod Seneddol drosti. Yng ngoleuni'r fantais wleidyddol y mae'r newid hwn yn ei rhoi i'r blaid sydd mewn grym ar hyn o bryd, sef y Blaid Geidwadol, a'r modd y mae'n gwanhau pob gwrthblaid, yn enwedig yr wrthblaid gryfaf y bydd y newid yn effeithio arni, sef y Blaid Lafur, rwyf o'r farn ei bod yn debygol bod y cynnig hwn yn ymgais i ddylanwadu ar ganlyniadau etholiadau drwy newid ffiniau daearyddol.

At hynny, rwy'n gwrthwynebu yn gryf iawn yr holl ostyngiadau yn nifer y seddi a fydd ar gael i gynrychiolwyr o Gymru a'r Alban yn Senedd y DU, ac rwyf o'r farn eu bod yn sathru ar ddulliau ymarfer democrataidd a chynrychiolaeth deg.

Os nad yw Senedd y DU fel y mae ar hyn o bryd yn gallu hybu cynrychiolaeth deg, efallai y dylai ymddiswyddo; ac os yw'n fater ariannol, efallai y dylai ystyried rhoi'r isafswm cyflog i Aelodau Seneddol.

**BCW-9642 / [REDACTED] / Gwent**

Dylai Cil-y-coed aros yn etholaeth Dwyrain Casnewydd. Dydw i ddim yn cytuno â'r ffiniau newydd arfaethedig, ac o ran cael ein lluchio i mewn i etholaeth Sir Fynwy – dyw hynny ddim yn ddemocrataidd.

**BCW-9643 / [REDACTED] / Wreccsam**

Mae creu un etholaeth seneddol lle mae Rhiwabon a'r Waun yn Wreccsam yn cael eu huno â Machynlleth, Llanidloes a'r Drennewydd ym Mhowys yn hollol hurt. Does dim ystyriaeth o gwbl wedi'i rhoi i ddaearyddiaeth y rhan hon o Gymru nac i gysylltiadau cymunedol. Nid yw'n gwneud synnwyr o gwbl, a naill ai mae'r llywodraeth ganolog yn ymyrryd er mwyn ymyrryd neu mae rhywun wedi bod yn gwneud ymarfer mathemategol wrth ddesg heb ddeall o gwbl y cysylltiadau ffisegol a'r cysylltiadau cyfathrebu sydd ar waith yn y rhan hon o Gymru. Yn ogystal â bod yn amhosibl i etholwr sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus fynd i gymorthfeydd yr Aelod Seneddol, mae hefyd yn hurt disgwyl i un Aelod Seneddol allu mynd o amgylch ei etholaeth/ei hetholaeth mewn amser sy'n agos at fod yn rhesymol, hyd yn oed mewn cerbyd preifat. Yn ddiweddar, cymerodd dair awr i fi deithio o Wreccsam i Aberaeron, a hynny gan ddefnyddio'r prif gefnffyrdd dosbarth A yn unig. Caiff rhannau helaeth o ardal yr etholaeth arfaethedig eu gwasanaethu gan ffyrdd nad ydynt fawr gwell na lonydd lludw sy'n cael eu cynnal a'u cadw yn wael. Mae'n eithaf amlwg bod yn rhaid ailystyried y newid hwn. O leiaf dylai'r holl ardal sy'n perthyn i Fwrdeistref Sirol Wreccsam fod yn rhan o etholaeth seneddol Wreccsam. Os yw hynny'n golygu bod etholaeth rhy fawr yn cael ei chreu ar gyfer Wreccsam, nad yw'n dderbyniol, dylai unrhyw addasu ffiniau ddigwydd, os oes raid, yn wardiau'r gogledd yn hytrach na wardiau Powys oherwydd nid oes gan drigolion Bwrdeistref Sirol Wreccsam unrhyw gysylltiadau o gwbl â nhw.

**BCW-9644 / [REDACTED] / Hwlfordd**

Rwy'n meddwl ei fod yn syniad ofnadwy ac na ddylai fynd yn ei flaen. Mae Llywodraeth Cymru yn sarnu Cymru yn llwyr. Cefais fy ngeni a fy magu yn Sir Benfro, a phe bawn i am fyw yng Ngheredigion byddwn i wedi symud yno. Unig fwriad hyn yw ceisio ennill mwy o bleidleisiau i Lafur!

**BCW-9645 / [REDACTED] / Magwyr**

Rwy'n erfyn arnoch i fwrw ymlaen â'r cynnig hwn. Rwyf wedi byw gydol fy oes yn y pentref hwn a chredwch chi fi, dyw Magwyr ddim yn perthyn i ddalgylch Dwyrain Casnewydd. Mae Magwyr yn lle sy'n nodweddiadol iawn o Sir Fynwy. Nid yw'r bobl sydd yma yn debyg i'r math o bobl sy'n byw yng Nghasnewydd. Dydyn ni ddim yn dod o Gasnewydd. Rydym yn dod o Sir Fynwy.

**BCW-9646 / [REDACTED] / Abertawe**

Mae cyfuno than o abertawe a chastell nedd yn creu ardal sy'n goroesi 2 awdurdod lleol. Mae gwahaniaethau rhwng y 2 ardal yn fawr. Ar hyn o bryd pobl lleol sy'n deall yr ardal, ag anghenion sydd yn cynrhichioli, bydd newid y ffin fel hyn yn debygol o greu sefyllfa lle mae un ardal yn cael ei gadael allan. Mae'n ardal fawr. Mae newid y ffin yn wneud ddim i helpu pobl yr ardal, na'r aelod fydd yn cael ei ethol. Syniad gan pobl sydd ddim yn deall yr ardal a'r pobl sy'n byw yno yw hyn.

**BCW-9647 / [REDACTED] / Aberdâr**

Pwrpas yr ymateb hwn yw cynnig ffiniau amgen ar gyfer etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr. Mae gan y ffiniau amgen rwy'n eu cynnig sgil-ffeithiau i rai o'r etholaethau arfaethedig eraill (h.y. Islwyn, Pontypridd a'r bedair sedd sy'n cwrpasu Caerdydd) ond credaf fod yr atebion sy'n cael eu cynnig yn gwella pob un o'r etholaethau dan sylw. Fel rhan o ateb "Cymru Gyfan" gallwn gynnig rhai newidiadau pellach i Islwyn a Phontypridd (y byddaf efallai'n ei wneud mewn man arall) ond gan mai Merthyr ac Aberdâr sydd o ddiddordeb pennaf i mi byddaf yn cyfyngu'r ymateb hwn i ateb sy'n gweithio'n sicr ar gyfer yr ardal hon.

Fel trigolyn Aberdâr byddai'n well gennyf fod wedi gweld Cwm Cynon yn goroesi fel etholaeth gyda ffiniau estynedig. Wedi dweud hynny, yng ngoleuni'r rheolau cymhleth mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau Cymru eu dilyn, gallaf ddeall pam na fu'n bosibl cynnig etholaeth o'r fath.

Er nad oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i greu etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr (mae'n ymddangos fel yr opsiwn gorau o dan yr amgylchiadau) nid wyf yn deall penderfyniad BCW i beidio â chynnwys wardiau Gogledd Aberaman a De Aberaman yn yr etholaeth arfaethedig hon. Faswn yn dadlau bod y ddau ward Aberaman yn rhannau annatod o beth mae'r mwyafrif o bobl yn meddwl amdani fel 'Aberdâr'. Maent yn rhan o dref bost Aberdâr a'r ddau wedi'u cynnwys yn ffurfiol yn Nosbarth Trefol Aberdâr cyn-1974. Mae ffin y ward rhwng Gogledd Aberaman a Dwyrain Aberdâr yn rhedeg rhwng tai yn yr un stryd mewn gwirionedd. Mae llawer o gysylltiadau eraill e.e. addysg - mae bron yr holl ddisgyblion ysgol uwchradd yn y ddau ward yn mynd i'r ysgol yn etholaeth arfaethedig Merthyr Tudful ac Aberdâr, naill ai yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, Ysgol Rhyd-y-waun neu Ysgol Gatholig yr Esgob Hedley.

Byddai cynnwys dau ward Aberaman yn etholaeth arfaethedig Merthyr ac Aberdâr i ddechrau yn gwthio'r etholaeth uwchlaw'r ystod niferoedd statudol ond mae modd datrys hyn yn hawdd trwy drosglwyddo Nelson i etholaeth arfaethedig Islwyn a fyddai, yn fy marn i, yn drefniant mwy addas beth bynnag. Mae gan Nelson gysylltiadau llawer agosach â wardiau eraill y mae cynnig i'w cynnwys yn Islwyn fel Ystrad Mynach a St. Cattwg ac mae hefyd yn rhan o ardal cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gyffredin â gweddill etholaeth arfaethedig Islwyn. Ni fydd ychwanegu Nelson yn mynd ag etholaeth Islwyn dros yr ystod statudol felly nid yw hyn yn broblem.

Mae trosglwyddo dau ward Aberaman i Ferthyr ac Aberdâr yn effeithio hefyd ar etholaeth arfaethedig Pontypridd, gan ei chymryd islaw'r ystod etholiadol statudol. Unwaith eto, mae'n bosib datrys yn hyn yn hawdd drwy gynnwys Pont-y-clun yn etholaeth Pontypridd, lle credaf y byddai'r mwyafrif o bobl yn meddwl ei bod yn perthyn yn fwy naturiol beth bynnag, yn hytrach na chael ei chynnwys fel atodiad i etholaeth Caerdydd. Ar hyn o bryd mae Pont-y-clun o fewn etholaeth Pontypridd ac wedi bod ers degawdau. Mae hefyd yn rhan o ardal cyngor Rhondda Cynon Taf fel y mae gweddill etholaeth arfaethedig Pontypridd ac mae ganddi gysylltiadau agos iawn â wardiau eraill yn yr etholaeth e.e. Tonysguboriau Green, Tref Llantrisant ac ati.

Mae trosglwyddo Pont-y-clun i Bontypridd yn mynd ag etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd islaw'r ystod statudol. Ond mae'n bosib ad-drefnu gweddill etholaeth Gorllewin Caerdydd drwy ei gyfuno â seddi arfaethedig eraill Caerdydd (a Phenarth) i ffurfio pedair sedd amgen sydd i gyd yn dod o fewn yr ystod etholiadol statudol. Mae sawl ffordd y gellid gwneud hyn. Cynigiaf un ateb ond credaf fod rhai eraill yn bosibl. Hefyd byddai f'ateb i yn osgoi'r cynnig problemus presennol ynglŷn â De Caerdydd a Phenarth.

Ym mhwynt 23 o'ch 'Meini Prawf ar gyfer Arolygu etholaethau Seneddol' rydych yn honni "Cyn belled ag y bo modd, mae'r Comisiwn am greu etholaethau: nad ydynt yn cynnwys 'rhannau datgysylltiedig', h.y. lle byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu teithio trwy etholaeth wahanol.". Gydag etholaeth arfaethedig De Caerdydd a Phenarth mae'n ymddangos eich bod mwy neu lai wedi creu rhan ddatgysylltiedig o'r fath ar ffurf Trowbridge sydd yn y bôn wedi'i thorri i ffwrdd rhag gweddill yr etholaeth oni bai eich bod yn cerdded ar lan y môr (gan orfod osgoi'r llanw uchel o bosibl). Nid oes unrhyw gysylltiadau ffordd rhwng ward Trowbridge a gweddill yr etholaeth a chredaf ei bod yn bosibl creu etholaethau hyfyw yng Nghaerdydd heb wynebu'r broblem hon. Byddai hyn yn gofyn am greu etholaethau cwbl newydd, gydag enwau gwahanol o bosib, ond ni welaf pam na ddylai hyn gael ei wneud os bydd yn cynhyrchu canlyniadau gwell.

Yn gryno byddai f'ateb i fel a ganlyn:

Merthyr Tudful ac Aberdâr: yr etholaeth a gynigir gan BCW (71,218); ynghyd â Gogledd Aberaman (3,609) a De Aberaman (3,541); llai Nelson (3,563). (Etholaeth: 74,805)

Islwyn: yr etholaeth a gynigir gan BCW (70,735); ynghyd â Nelson (3,563). (Etholaeth: 74,298)

Pontypridd: yr etholaeth a gynigir gan BCW (71,237); ynghyd â Phont-y-clun (6,061); llai Gogledd Aberaman (3,609) a De Aberaman (3,541). (Etholaeth: 70,148)




Gogledd-orllewin Caerdydd: wardiau presennol Gorllewin Caerdydd Creigiau/Sain Ffagan (4,409), y Tyllgoed (9,642), Llandaf (7,078), Pentyrch (2,819), Radur (5,425) a Riverside (9,621) o fewn Sir Caerdydd; wardiau presennol Gogledd Caerdydd Ystum Taf (5,992), Rhiwbeina (9,354) a'r Eglwys Newydd & Tongwynlais (12,928) o fewn Sir Caerdydd; a ward presennol Pontypridd Ffynnon Taf (2,855) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. (Etholaeth: 70,123)

Gogledd-ddwyrain Caerdydd: wardiau presennol Gogledd Caerdydd Gabalfa (5,922), y Mynydd Bychan (9,611), Llys-faen (2,942), Llanisien (13,492) a Phontpennau/Pentre Llaneirwg (8,047) o fewn Sir Caerdydd; a wardiau presennol Caerdydd Canolog Cathays (13,099), Cyncoed (8,475) a Phentwyn (10,783) o fewn Sir Caerdydd. (Etholaeth: 72,371)


De-ddwyrain Caerdydd: wardiau presennol Caerdydd Canolog Adamsdown (5,692), Pen-y-lan (9,858) a Phlasnewydd (12,285) o fewn Sir Caerdydd; a De Caerdydd & presennol; wardiau Penarth Butetown (7,834), Tredelerch (7,758), Llanrhymni (6,536), Y Sblot (9,081) a Trowbridge (11,076) o fewn Sir Caerdydd. (Etholaeth: 70,120)

De-orllewin Caerdydd a Phenarth: wardiau presennol Gorllewin Caerdydd Caerau (7,859), Treganna (11,457) a Threlái (9,576) o fewn Sir Caerdydd; De Caerdydd & presennol; ward Penarth Grangetown (13,257) o fewn Sir Caerdydd; De Caerdydd & presennol; wardiau Penarth Cornerswell (4,069), Llandochoau (1,578), Plymouth (4,584), St Augustine's (5,318), Stanwell (3,365) a'r Sili (3,696) o fewn Sir Bro Morgannwg; a ward presennol Bro Morgannwg Dinas Powys (6,388) o fewn Sir Bro Morgannwg. (Etholaeth: 71,147)


Gweler y mapiau sydd ynghlwm.



Cynigion Amgen BCW MTA Islwyn Pontypridd Caerdydd



Cynig Amgen MTA Islwyn Pontypridd Caerdydd



Cynnig Amgen Caerdydd



25 0 1 6

**BCW-9648/ [REDACTED] / Lecwydd****From:** [REDACTED]**Sent:** 25 October 2021 16:28**To:** BCW <[bcw@boundaries.wales](mailto:bcw@boundaries.wales)>**Subject:** Newidiadau arfaethedig i etholaeth Bro Morgannwg

Annwyl Syr/Madam

Rwy'n pryderu yn fawr y gallai'r bwriad i gynnwys Dinas Powys gyda De Caerdydd a Phenarth fod yn niweidiol i drigolion ein pentref ni. Mae gan yr etholaeth gysylltiadau hanesyddol ers amser maith â'r Barri a chefn gwlad Bro Morgannwg. Ni fyddai newid y ffin yn arwain at unrhyw fantais yn fy marn i, a byddai'n arwain at anfanteision enfawr i'r boblogaeth.

Rwy'n gobeithio y bydd y cynnig hwn yn cael ei dynnu'n ôl.

Yr eiddoch yn gywir

**BCW-9649 / [REDACTED] / Casnewydd**

Dydw i ddim yn meddwl bod Casnewydd yn debyg i Gaerffili; dylem gael ein rhannu'n Orllewin Casnewydd ac yn Ddwyrain Casnewydd. Nid yw'r ardal ddaearyddol yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl ac mae angen ailystyried y penderfyniad.

**BCW-9650/ [REDACTED] / Anhysbys****From:** [REDACTED]**Sent:** 25 October 2021 18:59**To:** [REDACTED]**Subject:** Newid ffiniau

Rwy'n ypsét iawn am y newidiadau arfaethedig i ffiniau; yn ôl yr arfer, gwleidyddion yn hytrach na phobl sy'n bwysig. Rwy'n defnyddio Ysbyty'r Barri. Pan fyddaf yn cael damweiniau, mae'r Ysbyty Athrofaol yn rhy bell ac mae'n amhosibl parcio. Rwyf yn fy 80au. Mae banc o hyd yn y Barri ac rwy'n defnyddio trên y Barri. Bydd yn gorfodi mwy o deithiau mewn ceir. [REDACTED]

created if Parliamentary representation was placed within Brecon and Radnor's already huge, land locked area would be significant. The individual's right to convenient access to Parliamentary representation would be severely weakened. My fear is that this area could be seen to provide a convenient set of numbers in order to comply with proposed quotas. The Upper Swansea and Amman Valleys should firmly remain where they belong within the Neath Constituency.

2. Would cut all long held ties with other valley communities within Neath. These valley communities share a history of familiar life styles, cultural links, industrial heritage, and traditions.

3. Would place Parliamentary representation outside of the geographical boundaries of The Abertawe Bro Morgannwg University Health Board which serves these upper Swansea and Amman Valley Wards thereby creating a barrier to ease of access and familiarity.

4. Would place Parliamentary representation outside the boundaries of Neath Port Talbot County Borough Council and all Town and Community Councils that serve these wards. Again creating a barrier to ease of access and familiarity.

5. Would cause confusion by moving these wards completely outside the constituency of Neath where they are placed for The Welsh Parliament representation.

6. Would cut links with many West Glamorgan regional partnerships both within the statutory and voluntary sectors. These partnerships serve these wards well and promote community cohesion and integrated provision.

7. Would cut the link with the preserved County of West Glamorgan which dates back to the ancient County of Glamorgan. West Glamorgan remains a preserved County for the Lieutenancy and Shrievalty. These functions feature prominently in the civic life of these valley communities and they promote and encourage the voluntary sector and individual volunteering.

2. Would weaken the fundamental and basic right of the people of the Upper Swansea and Amman Valleys to easy and convenient access to democracy and its processes.

**BCW-9651/ [REDACTED] / Rhydaman**

From: [REDACTED]  
 Sent: 25 October 2021 16:55  
 To: Enquiries <[enquiries@boundaries.wales](mailto:enquiries@boundaries.wales)>  
 Subject: Cynigion drafft ar gyfer Rhan Uchaf Cwm Tawe a Dyffryn Aman

**ADOLYGIAD SENEDDOL 2023 – CYNIGION CYCHWYNNOL.**

25 Hydref 2021

Rwy'n anfon y neges ebost hon er mwyn ymateb i gynigion drafft y Comisiwn fel y byddant yn effeithio ar Ran Uchaf Cwm Tawe a Dyffryn Aman.



Rwyf wedi byw gydol fy oes yn yr ardal hon.  
 Rwyf wedi cynrychioli'r ardal fel cynghorydd cymuned, cynghorydd sir a chynghorydd bwrdeistref sirol ac fel cyn-aelod y Cynulliad (sef ei enw ar y pryd) dros Gastell-nedd. Cefais y fraint o gynrychioli'r cyhoedd dros gyfnod o 35 mlynedd i gyd. Rwy'n nodi hynny gan fy mod yn credu fy mod yn adnabod ac yn deall bywyd yn y cwm a'r dyffryn yn arbennig o dda. Rwy'n gwybod y byddwch yn ystyried o ddifrif y pwyntiau y byddaf yn eu gwneud, oherwydd yn fy marn i maent yn perthyn i'ch maes disgresiwn chi o safbwynt cysylltiadau cymunedol a mynediad hawdd a chyfleus i'r broses ddemocrataidd a chynrychiolaeth yn Senedd y DU. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cydnabod eich bod wedi cael y neges ebost hon.

Gyda llawer o ddiolch



— FY SYLWADAU YNGHYLCH PAM YR WYF YN  
 GWRTHWYNEBU'N GRYF GYNIGION DRAFFT Y COMISIWN FFINIAU AR GYFER RHAN  
 UCHAF CWM Tawe A DYFFRYN AMAN.

1. Ar eu gorau nid ydynt yn gwneud unrhyw synnwyr ac ar eu gwaethaf, pe baent yn cael eu mabwysiadu, byddent yn achosi anghyfleustra mawr i'r unigolion a'r cymunedau y maent yn effeithio arnynt. Byddai'r anawsterau daearyddol a fyddai'n cael eu creu pe bai cynrychiolaeth yr ardal yn Senedd y DU yn cael ei gosod yn etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed, sydd eisoes yn enfawr ac sydd wedi'i hamgylchynu'n gyfan gwbl gan dir, yn anawsterau sylweddol. Byddai hawl yr unigolyn i gael mynediad cyfleus i gynrychiolaeth yn

Senedd y DU yn cael ei gwanhau'n ddifrifol. Rwy'n ofni y gallai'r ardal hon gael ei hystyried yn ardal sy'n darparu cyfres gyfleus o rifau er mwyn cydymffurfio â'r cwotâu arfaethedig. Dylai Rhan Uchaf Cwm Tawe a Dyffryn Aman barhau yn eu priod le, sef yn etholaeth Castell-nedd.

2. Byddent yn torri'r holl gysylltiadau sy'n bodoli ers amser maith â chymunedau eraill yn y cwm a'r dyffryn yng Nghastell-nedd. Mae'r cymunedau hyn yn rhannu'r un ffyrdd cyfarwydd o fyw, cysylltiadau diwylliannol, treftadaeth ddiwydiannol a thraddodiadau.
3. Byddent yn golygu bod cynrychiolaeth yn Senedd y DU yn cael ei gosod y tu allan i ffiniau daearyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg sy'n gwasanaethu'r wardiau hyn yn Rhan Uchaf Cwm Tawe a Dyffryn Aman, gan greu rhwystr i fynediad hwylus ac adnabyddiaeth.
4. Byddent yn golygu bod cynrychiolaeth yn Senedd y DU yn cael ei gosod y tu allan i ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a phob cyngor tref a chymuned sy'n gwasanaethu'r wardiau hyn, gan greu rhwystr unwaith eto i fynediad hwylus ac adnabyddiaeth.
5. Byddent yn achosi dryswch drwy symud y wardiau hyn yn gyfan gwbl y tu allan i etholaeth Castell-nedd, lle maent wedi'u gosod ar gyfer cynrychiolaeth yn Senedd Cymru.
6. Byddent yn torri cysylltiadau â llawer o bartneriaethau rhanbarthol yng Ngorllewin Morgannwg, yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol. Mae'r partneriaethau hynny'n gwasanaethu'r wardiau dan sylw'n dda ac maent yn hybu cydlyniant cymunedol a darpariaeth integredig.
7. Byddent yn torri'r cysylltiad â hen sir gadwedig Gorllewin Morgannwg sy'n dyddio'n ôl i sir hynafol Morgannwg. Mae Gorllewin Morgannwg yn parhau'n sir gadwedig ar gyfer y Rhaglawiaeth a'r Siryfiaeth. Mae'r swyddogaethau dan sylw'n rhan amlwg o fywyd dinesig y cymunedau hyn yn y cwm a'r dyffryn, ac maent yn hybu ac yn annog y sector gwirfoddol a gwaith gwirfoddol gan unigolion.
8. Byddent yn gwanhau hawl sylfaenol pobl Rhan Uchaf Cwm Tawe a Dyffryn Aman i gael mynediad hawdd a chyfleus i ddemocratiaeth a'i phrosesau.



**BCW-9652 / [REDACTED] / Castell-nedd**

Rwy'n byw yn Llansawel sydd wedi bod yn rhan o Gastell-nedd erioed, ac NID Port Talbot! Rwy'n teimlo y dylai Llansawel i gyd fod yn rhan o GASTELL-NEDD unwaith eto. Nid Aberafan a Phorthcawl!!!!

Rwy'n casáu'r syniad hwn! Dydw i ddim yn deall pam na allwn fynd yn ôl i'r sefyllfa fel yr oedd hi gyda Morgannwg. Neu ai gwleidyddiaeth yw'r rheswm y tu ôl i'r cyfan?

**BCW-9653 / [REDACTED] / Pontypridd**

Mae'n ymddangos bod y broses gyfan wedi'i hysgogi am resymau gwleidyddol yn unig, ac na fydd yn esgor o gwbl ar unrhyw fudd go iawn neu bendant i'r cymunedau. Bydd lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru yn fanteisiol i un blaid wleidyddol yn unig, sef y blaid sydd mewn grym yn San Steffan ar hyn o bryd. Felly, nid yw'n anodd deall cymhellion y blaid dros wneud hyn. Bydd y ffiniau newydd yn creu etholaethau nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau gwirioneddol ac nad ydynt yn gydlynus, er enghraifft bydd rhannau o Aberdâr gyda Phontypridd a bydd ardal y Rhondda yn cael ei chysylltu ag ardal coridor yr M4. Yn ôl pob golwg, nid oes fawr ddim rhesymeg yn perthyn i'r newidiadau ac nid ydynt yn dangos llawer o waith meddwl. Gallai plentyn â map a phin ffelt fod wedi gwneud y gwaith yn well!

**BCW-9654 / [REDACTED] Plaid Werdd Cymru / Llanrhystud**

Yn ardal cyngor Abertawe, lle mae'r Comisiwn wedi cynnig tair etholaeth (Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, Canol a Gogledd Abertawe, Gorllewin Abertawe a Gŵyr), mae Plaid Werdd Cymru, ar ôl ymgynghori ag aelodau'r blaid yn ardal y cyngor, yn dymuno cynnig aliniad gwahanol ar gyfer tair etholaeth.

Cynigiwn etholaeth Gŵyr sy'n cynnwys wardiau Llandeilo Ferwallt, Dynfant, Fairwood, Gorseinon, Gŵyr, Tre-gŵyr, Gogledd Cilâ, De Cilâ, Pontybrenin, Lluchwr Isaf, Mayals, Newton, Ystumllwynarth, Penclawdd, Penlle'r-gaer, Pennard, Penyrheol, Sgeti, Lluchwr Uchaf, a West Cross, gyda 70,576 o etholwyr (sef 96.16% o gwota etholiadol y DU).

Hefyd, cynigiwn etholaeth Abertawe sy'n cynnwys wardiau Bôn-y-maen, Y Castell, Cocyd, Cwmbwrla, Glandŵr, Treforys, Mynydd-bach, Penderi, St. Thomas, Townhill ac Uplands, gyda 74,949 o etholwyr (102.12% o gwota etholiadol y DU).

Bydd y Comisiwn yn nodi bod wardiau Clydach, Llangyfelach, Llansamlet, Mawr a Phontarddulais wedi'u hepgor o'r cynigion hyn. Bydd y wardiau hyn yn rhan o etholaeth arfaethedig Cymoedd Aman, Nedd a Thawe, a rhoddir y manylion yn ein cyflwyniad ar gyfer ardal cyngor Castell-nedd a Phort Talbot.

# (The) Gower

Electorate: 70,576 (96.16% of the UKEQ)

Google Earth

Data SIO, NOAA, U.S. Navy, NGA, GEBCO





**(City of) Swansea**  
Electorate: 74,949 (102.12% of the UKEQ)

**BCW-9655 / [REDACTED] Plaid Werdd Cymru/ Llanrhystud**

Cytunwn â chynigion y Comisiwn ar gyfer etholaeth Blaenau Gwent a Rhymni, ond â dau welliant.


Yn gyntaf, dymunwn gynnig gosod wardiau Argoed a Chrymlyn (y mae'r Comisiwn wedi cynnig eu gosod yn etholaeth newydd Islwyn) yn yr etholaeth arfaethedig hon, ac yn ail, dymunwn gynnig yr enw Blaenau Gwent a Chwm Rhymni ar gyfer yr etholaeth arfaethedig.

Cynigiwn gynnwys y wardiau canlynol yn ein hetholaeth arfaethedig Blaenau Gwent a Chwm Rhymni: Abertyleri, Badminton, Beaufort, Y Blaenau, Brynmawr, Cwm, Cwmtylleri, Gogledd Glynebwy, De Glynebwy, Georgetown, Llanhilleth, Nantyglo, Rassau, Sirhowi, Six Bells, Canol a Gorllewin Tredegar, Argoed, Crymlyn, Cwm Darren, Moriah, Tredegar Newydd, Pontlotyn, Twyn Carno a Bedlinog, a fyddai'n rhoi 71,752 o etholwyr ar gyfer yr etholaeth arfaethedig (97.76% o gwota etholiadol y DU).



# Blaenau Gwent and the Rhymney Valley

Electorate: 71,752 (97.76% of the UKEQ)



**BCW-9656 / [REDACTED] Plaid Werdd Cymru / Llanrhystud**

Mae'r Comisiwn yn cynnig dwy etholaeth sy'n cwmpasu'r ardal gyngor hon (sef Bro Morgannwg, a De Caerdydd a Phenarth). Rydym ninnau hefyd yn cynnig dwy etholaeth, ond gydag aliniad gwahanol

Cynigiwn etholaeth Pencoed a Bro Morgannwg sy'n cynnwys Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr, Bracla, Coety, Llangrallo Isaf, Felindre, Hendre, Litchard, Morfa a Phendre o gyngor Pen-y-bont ar Ogwr, a Baruc, Y Bont-faen, Illtyd, Llandŵ/Ewenni, Llanilltud Fawr, Llanbedr-y-fro, Y Rhws, Sain Tathan, Saint y Brid a Gwenfô yn ardal cyngor Bro Morgannwg, gyda 75,148 o etholwyr (102.39% o gwota etholiadol y DU).


Hefyd, cynigiwn etholaeth Penarth a'r Barri sy'n cynnwys wardiau Butetown a Grangetown o Gaerdydd, a Buttrills, Cadoc, Castleland, Cornerswell, Y Cwrt, Dinas Powys, Dyfan, Gibbonsdown, Llandochoau, Plymouth, St. Augustine's, Stanwell ac Y Sili ym Mro Morgannwg, gyda 76,589 o etholwyr (104.35% o gwota etholiadol y DU).

Hoffwn ymddiheuro am ddiffyg map disgrifiadol o etholaeth Penarth a'r Barri, roedd hyn oherwydd anawsterau technegol.



# Penarth and Barry

Electorate: 76,589 (104.35% of the UKEQ)



Google Earth

Data SIO, NOAA, U.S. Navy, NGA, GEBCO



**BCW-9657 / [REDACTED] / Dinas Powys**

Er bod gennym ein canolfan feddygol ardderchog ein hunain yn Ninas, rydym wedi defnyddio Ysbyty'r Barri weithiau mewn argyfwng. O ran siopa – rydym yn gwneud hynny yn y Barri yn bennaf. Bron i fi anghofio sôn mai Neuadd Goffa'r Barri yw ein hoff le i wyllo ffilmiau. O ystyried popeth, dylai Dinas Powys aros lle y mae – yn y Fro.

**BCW-9658 / [REDACTED] / Yr Wyddgrug**

Dydw i ddim yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig. Mae'n lleihau cynrychiolaeth pobl Cymru ymhellach.

**BCW-9659/ [REDACTED] Plaid Werdd Cymru / Llanrhystud**

Cyngor Caerdydd yw'r ardal gyngor fwyaf yng Nghymru yn ôl nifer yr etholwyr (251,908) ac mae'r Comisiwn o'r farn y dylai gael pedair etholaeth (Canol Caerdydd, Gogledd Caerdydd, Gorllewin Caerdydd, a De Caerdydd a Phenarth). Anghytunwn â nifer yr etholaethau (credwn y dylid cael tair yn y ddinas) a dymunwn gynnig:

Caerdydd, Bute: Adamsdown, Treganna, Cathays, Gabalfa, Penylan, Plasnewydd, Riverside, Gorllewin Y Sblot (72,475, 98.75% o gwota etholiadol y DU).

Caerdydd, Llanisien: Cyncoed, Y Mynydd Bychan, Llanisien, Llanrhymni, Pentwyn, Tredelerch, Dwyrain Y Sblot, Trowbridge (72,271, 98.47% o gwota etholiadol y DU).

Caerdydd, Sain Ffagan: Caerau, Creigiau/Sain Ffagan, Trelai, Y Tyllgoed, Llandaf, Ystum Taf, Pentyrch, Radyr, Rhiwbeina, Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais (75,082, 102.30% o gwota etholiadol y DU).

Mae'n siŵr y bydd y Comisiwn yn deall nad yw wardiau Dwyrain Y Sblot a Gorllewin Y Sblot yn bodoli, dim ond ward Y Sblot gyda 9,081 o etholwyr. Er mwyn cydymffurfio â'r rheolau a nodwyd, y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu dilyn, cynigiwn rannu'r ward hon (ar hyd llinellau ardaloedd pleidleisio) i sicrhau bod hanner y ward yng Nghaerdydd, Bute a hanner y ward yng Nghaerdydd, Llanisien.


## Caerdydd, Bute

Nifer yr Etholwyr 72.475 (98.75% o gwota etholiadol y DU)



## Caerdydd, Llanisien


Nifer yr Etholwyr: 72,271 (98.47% o gwota etholiadol y DU)





# Caerdydd, Sain Ffagan

Nifer yr Etholwyr: 75,082 (102.30% o gwota etholiadol y DU)



**BCW-9660/ [REDACTED] / Wreccsam**

Hoffwn fynegi pryderon am y ffin newydd a awgrymir ar gyfer Maldwyn a Glyndŵr.

Wn i ddim sut y byddai Aelod Seneddol yn gallu cynrychioli'n briodol ardal mor fawr sydd ag anghenion mor amrywiol. Rwy'n credu y dylai Rhiwabon/Y Waun/Pen-y-cae fod yn rhan o Wreccsam mewn gwirionedd, oherwydd rhaid bod eu hanghenion nhw'n debycach. O safbwynt daearyddol, yn sicr, dydw i ddim yn deall sut y gallem fod yn rhan o'r un etholaeth â Machynlleth (sydd ddwy awr i ffwrdd ar y trê, drwy Amwythig. . . ac sydd 1 awr a 40 munud i ffwrdd mewn car. . . (70 milltir)). Mae'n ymddangos yn rhyfedd iawn.

Yma, rydym yn sicr yn gallu uniaethu â bod yn rhan o Wreccsam. Byddwn i'n pwysu am i'r ffin (gweler yr atodiad) gael ei phennu lle mae natur yr ardal yn mynd yn fwy gwledig.

Byddwn i'n dweud y dylai Rhiwabon, Pen-y-cae, Acre-fair a Chefn-mawr fod yn rhan o Wreccsam.

Rhan o'r rheswm am hynny yw daearyddiaeth, oherwydd mae'r pentrefi hyn yn llawn tai ac mae ganddynt gysylltiadau da â thref Wreccsam. Mae'r ardal yn mynd yn wledig iawn wrth i chi deithio tua'r de-orllewin o'r pentrefi hyn, ac mae'n teimlo fel rhan wahanol iawn o Gymru i fi.

O ran hunaniaeth, mae'r ardaloedd hyn yn debyg iawn i Wreccsam oherwydd eu gorffennol diwydiannol cyffredin a'u cysylltiadau heddiw o ran gwaith. . .does neb mewn gwirionedd yn mynd o'r ardaloedd hyn i Faldwyn i weithio. Mae pawb yn mynd

**BCW-9661/ [REDACTED] / Pontypridd**

Nid yw Nantgarw yn agos i Ogledd Caerdydd ac ni ddylai fod o fewn terfynau'r etholaeth honno. Nid oes gan y bobl sy'n byw yno unrhyw gysylltiadau pendant â Chaerdydd o ran cyflogaeth chwaith.

Agwedd elyniaethus sydd gan bobl yr ardal at Gaerdydd yn gyffredinol, oherwydd maent yn credu bod Caerdydd yn ceisio ymestyn ei ffiniau mewn modd ymosodol er mwyn ceisio cystadlu â Llundain. Y broblem sylfaenol yw bod gan y teuluoedd sy'n byw yn yr ardal gysylltiad hanesyddol dwfn â Rhondda Cynon Taf yn ogystal â'r diwydiant mwynloddio, ac maent yn teimlo bod Caerdydd yn ceisio eu hamddifadu o'r dreftadaeth honno.

BCW-9662/ [REDACTED] / Rhuthun

From: [REDACTED]

Sent: 26 October 2021 10:28

To: BCW <[bcw@boundaries.wales](mailto:bcw@boundaries.wales)>

Subject: Adolygiad 2023 o Etholaethau Seneddol

Ynghlwm y mae fy sylwadau ynghylch eich cynigion rhagarweiniol

Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Tŷ Hastings

Llys Ffitsalan

Caerdydd CF24 0BL

26.10.21

### ADOLYGIAD 2023 O FFINIAU SENEDDOL YNG NGHYMRU

Rwy'n cyfeirio at eich cynigion rhagarweiniol a hoffwn wneud y sylwadau canlynol ynghylch etholaethau newydd arfaethedig Clwyd a Delyn.

Rwy'n cynnig y dylai ward RHUTHUN (4,260 o etholwyr) gael ei chynnwys yn etholaeth Clwyd ac **nid** yn etholaeth Delyn.

I wrthbwyso hynny, ac er mwyn cydymffurfio â'r rheolau ynghylch cwotâu etholiadol, rwy'n cynnig y dylai wardiau Dwyrain Llanelwy (1,620), Gorrlewin Llanelwy (1,290) a Threfnant (1,503) gael eu cynnwys yn Nelyn ac nid yng Nghlwyd.

Rwy'n cynnig hyn gan y byddai peidio â chynnwys Rhuthun yn etholaeth Clwyd yn tramgwyddo yn erbyn yr ystyriaethau statudol canlynol yn sylweddol:-

Cysylltiadau lleol. Mae gan Ruthun gysylltiadau economaidd a chymdeithasol ers amser maith â Dyffryn Clwyd ac mae ganddi gysylltiadau cryf â thref Dinbych, yr ydych chi'n bwriadu ei chynnwys yn etholaeth newydd Clwyd.

Daearyddiaeth. Saif Rhuthun ar lannau afon Clwyd ac mae i'r gorllewin o Fryniau Clwyd.

Ni fyddai cynnwys wardiau Llanelwy a Threfnant yn etholaeth Delyn yn tramgwyddo yn erbyn yr ystyriaethau statudol hyn i'r fath raddau â phe bai Rhuthun yn cael ei gadael allan o etholaeth Clwyd, a fyddai'n gam rhyfedd ofnadwy.



Roeddwn yn arfer bod yn Aelod Seneddol dros Orllewin Clwyd ond rwy'n cyflwyno'r sylwadau hyn ar fy rhan fy hun. Rwy'n hapus iddynt gael eu cyhoeddi.

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

**BCW-9663/ [REDACTED] / Casnewydd**

Ar ôl cynnig addasiadau i gynigion cynharach ynghylch ffiniau, rwyf braidd yn siomedig bod yn rhaid i fi gydnabod na allaf gynnig unrhyw welliant i'r gwaith ardderchog y mae'r Comisiwn wedi'i wneud y tro hwn.

Rwy'n sylweddoli nad y Comisiwn sy'n penderfynu ynghylch maint poblogaeth etholaeth, ond rwy'n credu ei bod yn briodol cydnabod nad oedd yn gywir bod gan Arfon hanner poblogaeth East Ham ond bod gan y naill etholaeth a'r llall un Aelod Seneddol yr un. Roedd yr adolygiad hwn yn angenrheidiol, ac o fewn y meini prawf a gyflwynwyd ni allaf wella'r cynigion cychwynnol ar gyfer Casnewydd.

Gan fod Sir Fynwy a Thorfaen yn cynnwys nifer briodol o etholwyr, a oedd yn galluogi ffiniau'r awdurdod lleol i fod yr un fath â ffiniau'r etholaeth seneddol, roedd y penderfyniadau hyn yn rhai amlwg i'w gwneud ac yn arwain yn naturiol at greu etholaeth arfaethedig Dwyrain Casnewydd. Mae'n siomedig bod yn rhaid i ddinas Casnewydd gael ei hollti drwy ei chanol, ond rhaid cyfaddef bod hynny'n ymddangos yn anochel o ystyried y meini prawf.

Yn yr un modd, mae'n bosibl nad yw cyfuno Gorllewin Casnewydd â Chaerffili yn gysylltiad amlwg i'w greu, ond unwaith eto mae'n gynnig rhesymol o ystyried y meini prawf. Byddwn yn ildio i unrhyw un o drigolion Caerffili a fyddai'n dweud fel arall, ond mae'n ymddangos bod y cynnig yn parchu integriti anheddiad Caerffili. Gellid mabwysiadu dull amgen o weithredu ar gyfer Gorllewin Casnewydd, o fewn ffin y sir gadwedig, a chynnwys ardaloedd i gyfeiriad Rhisga, Crosskeys a Threcelyn. Fel arall, gellid croesi i mewn i Gaerdydd lle ceir synergedd trefol â Chasnewydd, ond dydw i ddim yn credu bod yr un o'r opsiynau hyn yn gwella'n sylweddol yr hyn sydd

**BCW-9664/ [REDACTED] / Rogiet**

Rwy'n gwrthwynebu'r newid hwn i'r ffin.

O safbwynt demograffig, mae Rogiet yn agosach i Ddwyrain Casnewydd nag y mae i Drefynwy.

Mae'r problemau sydd gan Rogiet yn debycach i'r problemau a brofir yn Nwyrain Casnewydd. Maent yn hollol wahanol i'r problemau sy'n codi yn ardaloedd gwledig Sir Fynwy.

Yn fy marn i, mae yna wahaniaethu'n digwydd rhwng de a gogledd y sir, sy'n golygu bod y de ar ei golled.

Bydd y cynnig hwn yn sicr yn niweidiol i Rogiet.

**BCW-9665/ [REDACTED] / Rhuthun**

Rwy'n pryderu yn fawr am y newidiadau arfaethedig nid yn unig i seddi Clwyd a Delyn yn benodol ond hefyd ar lefel ehangach. Cenedl fach yw Cymru, ond sut y gall fod yn aelod cyfartal o'r DU os dim ond 32 o seddi (wedi gostwng o 40) sydd ganddi yn Senedd y DU, mewn siambr sy'n cynnwys chwe chant a hanner o aelodau. Prin y mae hynny'n dangos statws cyfartal, ac mae'n arwydd o'r ffaith bod llais Cymru yn San Steffan yn cael ei wanhau a'i wthio i'r ymylon yn gynyddol, gan wanhau'r Undeb hefyd felly. Rwy'n cytuno yn sylfaenol â'r egwyddor o gydraddoldeb mewn democratiaeth, ond mae'r newid hwn yn esgor ar y cysyniad nad yw'r DU yn gyfartal ac mae'n codi cwestiynau am y cyfansoddiad ehangach. Ffactor arall yw a fydd y newidiadau hyn i seddi'n cael eu hefelychu yn rhan o'r newidiadau arfaethedig i nifer yr aelodau sydd gan y Senedd yng Nghaerdydd, neu a fydd etholaethau Senedd Cymru yn parhau'r un fath.

O ran y ddwy sedd yn benodol, mae'r newid yn hollti cymuned Rhuthun a'r ardal gyfagos yn eu hanner rhwng sedd Clwyd a sedd Delyn, ac nid yw'n dangos dim parch at gysylltiadau hanesyddol nac at y ffaith bod afon Clwyd yn llifo drwy Ruthun. Bydd tref Rhuthun yn cael ei gwahanu oddi wrth rannau deheuol, gogleddol a gorllewinol ei chymuned, oherwydd mae'r dref yn ganolfan wasanaethau i'w chyffiniau gwledig ehangach ac mae ganddi gysylltiadau cryf iawn â'r ardaloedd a'r cymunedau hynny; does ganddi ddim cysylltiadau â gogledd Sir y Fflint. Rwyf wedi edrych yn benodol ar y mapiau a hoffwn gynnig ateb:

Rhuthun, Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal a Llandyrnog (cyfanswm yr etholwyr 7195) i ymuno â sedd Clwyd

Rhuddlan, Gorllewin Llanellwy a Dwyrain Llanellwy (cyfanswm yr etholwyr 5675) i ymuno â sedd Delyn

Mae hynny'n gwneud mwy o synnwyr o lawer oherwydd bod gan Llanellwy a Rhuddlan gysylltiadau daearyddol cryf â Phrestatyn yn sedd Delyn a bod y ddau le'n rhan o Sir y Fflint yn y gorffennol (cyn 1974). Byddai gan y ddwy sedd fwy o etholwyr o h d na'r boblogaeth a gynghorir ar gyfer pob etholaeth, sef 73,393 (byddai gan sedd Delyn 74,554 o etholwyr a byddai gan sedd Clwyd 77,900). Ni fyddai'r un ohonynt yn sedd leiaf Cymru o ran poblogaeth, o'u cymharu â seddi eraill; Clwyd fyddai'r sedd fwyaf o ran poblogaeth (o ryw fymryn yn unig, e.e. byddai gan Aberafan Porthcawl 76,792 o etholwyr).

Mae rhoi Rhuthun yn sedd Delyn yn hollol annerbyniol, a byddai'n anymarferol i unrhyw Aelod Seneddol wasanaethu'r ddwy ardal sydd mor wahanol i'w gilydd, e.e. yn ddaearyddol ac yn ieithyddol. Mae arna i ofn nad yw pwy bynnag a gynigiodd y ffiniau hyn yn adnabod cymeriad yr ardal ac na wnaeth ymgynghori â'r boblogaeth leol. Efallai nad yw'r ateb uchod yn berffaith, ond mae'n well na'r cynnig presennol ar gyfer y seddi.

**BCW-9665 / [REDACTED] / Ruthin**

I have major concerns about the proposed changes for the Clwyd and Delyn seats specifically, but also on a wider level. Wales is a small nation, but how can it be an equal member of the UK when it has only 32 parliamentary seats (reduced from 40) in a chamber of six hundred and fifty members. This hardly denotes equal status and signifies Wales' voice in Westminster becoming ever smaller and marginalised, thus weakening the Union. I fundamentally agree with the principle of equality in democracy, but this change gives rise to the concept that the UK is not equal and raises questions about the wider constitution. There is the added factor of whether these seat changes will be replicated as part of the proposed changes to the number of Senedd members in Cardiff, or will Senedd constituencies remain the same.

Specifically on the two seats. It splits the community of Ruthin and the surrounding area in half between the Clwyd and Delyn seats, paying no respect to historical links or the fact that the river Clwyd runs through Ruthin. Ruthin will be split from the Southern, Northern and Western parts of its community since it serves a much wider rural hinterland as a service centre and has very strong links with these areas and communities, and has no links to North Flintshire. I have looked specifically at the maps and would like to put forward a solution:

Ruthin, Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal and Llandyrnog (total electors 7195) to join the Clwyd seat

Rhuddlan, St Asaph West and St Asaph East (total electors 5675) to join the Delyn seat

This makes much more sense since St Asaph and Rhuddlan have strong geographic links with Prestatyn in the Delyn seat and both were historically part of Flintshire (before 1974). Both seats would still be above the advised population per constituency of 73,393 (Delyn at 74,554, and Clwyd at 77,900) and neither would be either smallest seat in Wales in terms of population when compared with other seats, but Clwyd would be the largest by population (but only marginally e.g. Aberafan Porthcawl at 76,792 electors).

Ruthin being in the Delyn seat is completely unacceptable and impractical for any MP to serve both areas which are vastly different from each other e.g. geographically, linguistically. I'm afraid whoever put these boundaries in place does not know the character of the area nor consulted with the local population. The solution above might not be perfect, but it is better than the current proposal for the seats.

**BCW-9666/ [REDACTED] / Port Talbot**

Mae Aberafan a Phorthcawl yn cysylltu dwy ardal ar draws ffiniau awdurdodau, nad oes ganddynt unrhyw beth yn gyffredin o ran eu hanes na'u problemau economaidd-gymdeithasol.

**BCW-9667/ [REDACTED] / Rogiet**

Rwy'n hollol yn erbyn y newid a gaiff ei awgrymu i'r ffin! Mae Jessica Morden, ein Haelod Seneddol dros Ddwyrain Casnewydd sy'n cynnwys Rogiet, yn wirioneddol wych.

Mae hyd yn oed awgrymu newid ein ffin yn beth hurt. Does gan Aelod Seneddol Ceidwadol dros Sir Fynwy ddim diddordeb yn ein hardal ni a does ganddo ddim cysylltiadau â hi, ac mae'r newid yn mynd yn gwbl groes i fuddiannau lleol. Yr unig reswm, hyd y gwelaf i, dros wneud yr awgrym hwn yw cynyddu rheolaeth y Ceidwadwyr yng Nghymru!

**BCW-9668/ [REDACTED] / Caerffili**

Ewch amdani. Prin y mae'r Blaid Lafur yn gymwys i fod yn wrthblaid. Chân nhw fyth eu haillethol i lywodraethu'r DU tra bydd gen i dwll yn fy mhen-ôl.

**BCW-9669 / [REDACTED] / Rogiet**

Mae gen i ddau bryder:

1. Dydw i ddim yn cytuno â'r gofyniad sydd y tu ôl i'r newidiadau, sef lleihau nifer etholaethau Senedd y DU sydd i'w cael yng Nghymru. Mae'n teimlo fel ymgais i leihau dylanwad Cymru yn Senedd y DU.
2. Dydw i ddim yn cytuno â'r newid i'r ffin rhwng etholaeth Dwyrain Casnewydd ac etholaeth Sir Fynwy. Ar hyn o bryd, mae aneddiadau Cil-y-coed, Rogiet, Gwndy a Magwyr ar lannau afon Hafren yn cael eu gwasanaethu gan yr Aelod Seneddol ardderchog dros Ddwyrain Casnewydd (Jessica Morden, Llafur) sy'n ymgysylltu yn helaeth â'n haneddiadau lle mae'r boblogaeth yn cynnwys pobl dosbarth gweithiol/cymudwyr yn bennaf. Ar y llaw arall, mae'r Aelod Seneddol dros Sir Fynwy (David Davies, Ceidwadwyr) yn eithaf anghyfarwydd i ni. Rwy'n ofni y bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar fuddiannau etholaeth Sir Fynwy fel y mae ar hyn o bryd (ffermio, amaethyddiaeth a thwristiaeth) ac na fydd yn deall anghenion ein haneddiadau ni ar hyd glannau afon Hafren.

**BCW-9670/ [REDACTED] / Cil-y-coed**

Dylem fod wedi bod yn rhan o Sir Fynwy erioed....rydym yn byw yn Sir Fynwy, yn talu treth gyngor i Sir Fynwy ond yn ethol cynrychiolwyr ar gyfer Casnewydd....sut y byddent yn ein cynrychioli ni wrth gynrychioli ardal ddinesig hefyd sydd ag anghenion gwahanol.



**BCW-9671/ [REDACTED] / Wreccsam**

Os yw hyn yn golygu na fydd y man lle'r wyf yn byw wedi'i gynnwys mwyach ym mwrdeistref Wreccsam, byddwn yn croesawu'r newid.

Roedd fy nhŷ yn arfer bod yn Sir Ddinbych, yna aeth draw i Glwyd, ac yna i fwrdeistref Wreccsam.

**BCW-9672/ [REDACTED] / Magwyr**

Rwy'n cytuno ei bod yn gwneud mwy o synnwyr i alinio'r etholaeth â ffin y cyngor, ond dydw i ddim yn fodlon symud i etholaeth Geidwadol ac rwy'n teimlo y bydd fy mhleidlais yn awr yn ddiwerth.

**BCW-9673 / [REDACTED] / Port Talbot**

Ffordd arall y gall y llywodraeth Geidwadol stripio a hollti seddi Llafur.

Ydych chi wir yn meddwl y bydd pobl gyfoethog Porthcawl yn hapus i gael eu cysylltu ag ardaloedd o Sort Talbot?

Rhannu a rheoli!

**BCW-9674 / [REDACTED] / Marloes**

Alla i ddim deall pam y mae'n rhaid i ardal weinyddu sydd mor fach â Chymru ac y mae ei phoblogaeth yn llai na 4 miliwn gael 22 o Gynghorau Sir a Chynulliad. Rhaid bod y gost yn syfrdanol, ac mae'n creu system rhy fawr. Mae Birmingham a rhai o'r Cynghorau metro mwyaf yn fwy na Chymru, ac mae ganddynt weinyddiaethau symlach. Gadewch i ni leihau nifer y Cynghorau Sir a chael gwared ar y Cynulliad Cenedlaethol.

**BCW-9675 / [REDACTED] / Bethesda**

Rwy'n teimlo yn gryf iawn na ddylai'r ardal yr wyf yn byw ynddi ddod yn rhan o Aberconwy. Mae Arfon yn un o etholaethau Plaid Cymru, a dylai barhau felly. Dim ond ffordd arall i San Steffan roi llai o gynrychiolaeth i Gymru yw'r broses o ailbennu ffiniau.

**BCW-9676 / [REDACTED] / Tregaron**

Mae'r ffin arfaethedig yn cynnwys ardal ddaearyddol fawr, sy'n ardal y mae ei chymunedau'n wynebu problemau cyffredin ac amrywiol. Mae gorfod teithio rhwng cymunedau'n golygu na fydd y trigolion yn gallu cael cymaint o amser cyswllt ag yr oeddent yn arfer ei gael â'u cynrychiolydd etholedig. Nid oes unrhyw wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus uniongyrchol yn cysylltu naill ben yr etholaeth arfaethedig â'r llall.

I bleidiau gwleidyddol sydd â changhennau gweithredol yn yr etholaeth, bydd yna bwysau ar eu hadnoddau a bydd llai o gymorth ar gael i'w haelodau. Bydd yr aelodau'n gorfod treulio mwy o amser yn teithio neu byddant ar wahân yn fwy.

Rwy'n poeni hefyd am iaith a diwylliant. Mae llawer o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yng Ngheredigion. Rwy'n teimlo y gallai ymgorffori ardal nad oes ganddi'r un ymrwymiad arwain at ganlyniadau andwyol i Geredigion.

**BCW-9677 / [REDACTED] / Casnewydd**

Nid. Yw'n. Gweithio.

Does dim modd gweld y map yn iawn i gael trosolwg o oblygiadau ar gyfer e.e. De Cymru.

Nid yw'n eglur pa un ai yw'r ffiniau (sydd wedi eu dangos mewn creon melyn bras) yn ffiniau cyfredol neu arfaethedig, naill ffordd neu'r llall, does dim cymhariaeth. Anodd iawn gwybod beth sydd wedi newid, dim eglurhad.

Ymgynghori gwael iawn.

.

**BCW-9678 / [REDACTED] / Pen-y-Bont ar Ogwr**

Mae hwn yn gynnig cywilyddus. Mae symud fy mhleidlais o Ben-y-bont ar Ogwr i Bort Talbot yn ddiegwyddor a llwgr.

Rwy'n byw ym Mhen-y-Bont ar Ogwr ac yn disgwyl i'm pleidlais gyfrif dros Ben-y-bont ar Ogwr. Nid Port Talbot ble bydd asyn yn sefyll dros Lafur yn cael ei bleidleisio i mewn.

Fe symudais i o Bort Talbot ac nid wyf am fod yn gysylltiedig a'r lle drwy fod ffiniau etholiadol yn cael eu symud.

Mae hefyd yn ddryslyd am eich bod yn rhannu'r dref.

Gwnewch y ffiniau y tu allan i ardaloedd adeiledig, ddim eu hollti.

**BCW-9679 / [REDACTED] / Y Sili**

Tra rwyf yn deall yr angen i gael niferoedd priodol ym mhob etholaeth- nid wyf yn deall pam fod Penarth, Dinas Powys a'r Sili, gyda phob un ohonynt ym Mro Morgannwg, yn dod i etholaeth sydd yng Nghaerdydd? Os ydych yn ystyried torri nifer y seddau, efallai byddai ailystyried yn gyfan gwbl ffiniau Caerdydd/Bro Morgannwg yn lle da i ddechrau? Hoffwn yn fawr iawn i'm AS adlewyrchu'r sir rwy'n byw ynddi!

**BCW-9680 / [REDACTED] / Caldicot**

Rwy'n cytuno gyda'r newidiadau i Caldicot. Mae'n gwneud mwy o synnwyr bod yn rhan o Sir Fynwy yn hytrach na Dwyrain Casnewydd. Rwy'n ystyried yr ardal i fod yn Sir Fynwy yn hytrach na Chasnewydd ac roeddwn i'n synnu clywed am y rhanbarthau presennol – mae'r rhanbarthau arfaethedig yn gwneud mwy o synnwyr.

**BCW-9681 / [REDACTED] / Caldicot**

Rwy'n anghytuno'n llwyr â gwneud Caldicot yn rhan o ardal bleidleisio Sir Fynwy. Gan fod Caldicot yn ardal sy'n rhoi pleidlais i Lafur rwy'n teimlo y bydd fy llais democrataidd yn cael ei dawelu trwy foddi pleidleiswyr Caldicot yn Sir Fynwy Geidwadol. Mae symud ffiniau yn teimlo fel cynllun Ceidwadol i leihau nifer y seddau sy'n derbyn pleidleisiau Llafur.

**BCW-9682 / [REDACTED] / Castell-nedd**

Shwmae

Mae Castell-nedd yn dref hanesyddol ac yn fwrdeistref bwysig yn Sir Castell-nedd Port Talbot gyda chynghorwyr sirol etholedig yn ein cynrychioli. Nid wyf yn deall felly sut y gall Castell-nedd ddod yn rhan o etholaeth Dwyrain Abertawe? Mae ar Gastell-nedd angen ei Haelod Seneddol ei hun i gynrychioli materion pwysig ac unigryw pobl Castell-nedd a'r cymoedd cyfagos. Dylai Dwyrain Abertawe fod yn rhan o etholaeth Abertawe nid yn rhan o Gastell-nedd. I mi, mae'r awgrym yma'n hurt bost! A wnewch chi ail-ystyried os gwelwch yn dda.

Diolch.

**BCW-9683 / [REDACTED] / Y Bari**

Gan: [REDACTED]

Danfonwyd: 26 Hydref 2021 14:36

I: BCW <bcw@boundaries.wales>

Testun: Newid Ffin Dinas Powys

I bwy bynnag a fynno wybod

Hoffwn ddantan fy ngwrthwynebiad i'r newid ffin arfaethedig i symud Dinas Powys o etholaeth Bro Morgannwg. Rwy'n berchennog ar ddau fusnes gwledig yn y fro, un yn Y Bari a'r llall yn Ninas Powys. Mae llawer o'n gweithgareddau yn cael eu cyfarwyddo a'u rheoli o'n swyddfeydd ym Mro Morgannwg, ac rwy'n teimlo nad oes gennym unrhyw gysylltiad uniongyrchol â Chaerdydd. Rwy'n teimlo pe byddai etholaeth De Caerdydd i gynnwys Dinas Powys byddai'n rhy fawr ac anghynrychioliadol o ran barn trigolion Dinas Powys, sy'n tueddu i ganolbwyntio mwy ar faterion gwledig.

Yn ddiffuant

[REDACTED]

[REDACTED]



**BCW-9684 / [REDACTED] / Y Drenewydd**

**Oddi wrth:** [REDACTED]

**Anfonwyd:** 26 Hydref 2021 16:26

**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>

**Cc:** [REDACTED]

**Pwnc:** Ymateb i'r Ymgynghoriad gan Gyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn – Cynigion Cychwynnol Arolwg Seneddol 2023

Annwyl CFfG

Diolch i chi am eich ymgynghoriad ar 'Arolwg Seneddol 2023 – Cynigion Cychwynnol', a dderbyniwyd ar 8 Medi '21.

Yng nghyfarfod Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn ar 25 Hydref, penderfynwyd cyflwyno'r ymateb canlynol...

Mae'r ymateb yn ymwneud â Sir Drefaldwyn yn unig  
Mae Cyngor y Dref yn cefnogi cynigion cychwynnol y CFfG am y rhesymau canlynol:

Ni fyddai unrhyw gymunedau presennol yn cael eu rhannu gan ffin etholaeth newydd  
Mae'r etholaeth bresennol yn parhau i fod yn gyfan

Cedwir yr enw Maldwyn.

Ac mae'r Cyngor yn ychwanegu sylw pellach y byddai'n ddefnyddiol esbonio yn y cynigion terfynol:

Pam nad yw Cadeirydd y Comisiwn yn cymryd unrhyw ran yng ngwaith y Comisiwn  
Y gwahaniaeth rhwng yr enwau 'Etholaeth Fwrdeistrefol' ac 'Etholaeth Sirol'

Esboniad clir o drefniadau ymadael yn sgil gostyngiad o 8 sedd seneddol yng Nghymru.

Hyderaf y byddwch yn cymryd y cyflwyniad hwn i ystyriaeth.

Yr eiddoch yn gywir

[REDACTED]

BCW-9685 / [REDACTED] / Rhondda Cynon Taf



Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Tŷ Hastings  
Fitzalan Place  
Caerdydd  
CF24 OBL

20 Hydref 2021

Annwyl Syr/ **Fadam**,

Parthed: Cynigion Cychwynnol Adolygiad Seneddol 2023 - Ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i Etholaethau Etholiadol.

Ysgrifennaf atoch i gyflwyno fy ngwrthwynebiadau o ran y newidiadau arfaethedig i etholaethau fel y'u nodir yn yr adolygiad uchod i newid maint etholaethau ledled y DU, sy'n golygu bod y llywodraeth â'r Comisiwn Ffiniau wedi amlinellu newidiadau i lawer o etholaethau etholiadol presennol, ac wrth wneud hynny bydd yn lleihau nifer seddi AS Cymru o 40 i 32, ac yn y broses yn newid mwyafrif etholaethau Cymru, ac yn achos fy etholaeth i, Cwm Cynon, yn ei dileu yn gyfan gwbl fel etholaeth gydnabyddedig.

Rwy'n herio cynnig y Comisiwn Ffiniau yn yr Adolygiad hwn eich bod wedi cymhwyso'ch meini prawf datganedig wrth ystyried etholaeth bresennol Cwm Cynon fel yr ydych wedi'i ddweud –

"(Yn unol â'r Ddeddf) gall y Comisiwn ystyried

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, ffurf a hygyrchedd etholaeth;
- ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent ar 7 Mai 2015 (gweler y Canllaw i Arolwg 2018: Pennod 2 paragraff 2);
- ffiniau etholaethau presennol;
- unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau; ac
- yr anghyfleustra sydd ynghlwm wrth newidiadau tebyg."

Hefyd, mae eich cynnig Adolygu wedi datgan "Cyn belled ag y bo modd, mae'r Comisiwn am greu etholaethau yng Nghymru

- o wardiau etholiadol sy'n gyfagos at ei gilydd; a
- nad ydynt yn cynnwys rhannau datgysylltiedig, h.y. lle byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu teithio trwy etholaeth wahanol."

O ran eich cynnig ar gyfer etholaeth bresennol Cwm Cynon, mae eich adolygiad o'r Comisiwn Ffiniau wedi gwrth-ddweud nifer o'r pwyntiau uchod yn llwyr ac rydych wedi creu rhai o'r materion uchod wrth ddymchwel etholaeth Cwm Cynon.

Mae eich cynnig wedi torri Cwm Cynon yn ei hanner yng nghanol tref Aberdâr gyda'r ardaloedd i'r gogledd o Aberdâr, ac mae Cwmbach, gan gynnwys rhan ddaearyddol Aberaman y tu ôl i siop Asda yn Aberaman wedi ei hychwanegu at etholaeth Merthyr i greu etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr, gyda gweddill Aberaman, Godreaman, Cwmaman a Chynon isaf yn cael eu hychwanegu at etholaeth Pontypridd.

Hoffwn dynnu sylw at y ffaith mai Heol Caerdydd, Aberaman yw'r stryd gyntaf a'r brif ffordd sy'n arwain tua'r de allan o ganol tref Aberdâr ac mae trigolion Aberaman yn llythrennol ar garreg drws canol tref Aberdâr sef prif ardal a chanol etholaeth Cwm Cynon ond mae'r Comisiwn Ffiniau wedi penderfynu rhannu Aberaman i ffordd o'r dref y mae trigolion yn cerdded iddi yn gyson gyda rhai sy'n byw yn llythrennol funud o bellter cerdded o'r dref, ond yn hytrach o dan eich cynlluniau arfaethedig, bydd yn dod o dan etholaeth Pontypridd sydd tua 12 milltir i ffordd gyda'i AS cysylltiedig yno.

Nid wyf yn credu bod y Comisiwn Ffiniau wedi ystyried y cynllun daearyddol o gwbl, na chysylltiadau a hygyrchedd etholaeth Cwm Cynon gan wneud mynediad lleol i gynrychiolaeth AS yn llawer anoddach o dan y cynigion newydd hyn ar gyfer llawer o drigolion Cwm Cynon gan fod gennym llawer o drigolion hŷn, anabl ac agored i niwed, a phobl sy'n gweithio a theuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd neu'n byw mewn tlodi, nad oes ganddynt ffordd o allu cysylltu ag AS gan nad yw bellach ar gael yng Nghwm Cynon ei hun, ond allan o'u cyrraedd ym Mhontypridd.

Bydd y rhan fwyaf o Aberaman, Godreaman, Cwmaman a gweddill Cynon isaf yn etholaeth Pontypridd o dan gynnig y Comisiwn gyda'n wardiau Aberaman yn gorwedd yn eithafion gogleddol etholaeth newydd Pontypridd a bydd llawer o drigolion Cwm Cynon yn cael eu hynysu a'u heithrio rhag mynediad democrataidd i AS Pontypridd. Mae gan llawer ohonynt incwm neu fudd-daliadau bach iawn, mae llawer ohonynt yn ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus, nid ydynt yn ymwybodol nac wedi'u cynnwys yn ddigidol, ac mae eu cysylltiad â'u gwasanaethau lleol yn agos i'w cartrefi a oedd yn cynnwys yr AS lleol.

O dan eich newid etholaeth arfaethedig newydd, mae'r Comisiwn Ffiniau wedi rhannu Aberaman yn ardaloedd gwahanol ac yn etholaethau gwahanol gan nad oes gan y Comisiwn unrhyw wybodaeth leol am ardal Cynon ei hun a'r ffordd y mae rhannau o Aberaman yn cael eu gwasgaru gan ei daearyddiaeth leol yn dilyn llwybrau'r cwm a'r afon. Ni allaf ddirnad sut y mae'r Comisiwn wedi penderfynu rhannu Aberaman, gyda'r datblygiad tai newydd ar safle Coed Dyffryn, Aberaman o tua 200 o eiddo ar y tir y tu ôl i siop Asda yn Aberaman, sydd ond ar gael o'r un ffordd i mewn o Aberaman oddi ar gylchfan y ffordd osgoi i safle parc manwerthu Glan yr Afon yn Asda, Aberaman. Nid yw'n rhan o Gwmbach, ond Aberaman, ond mae wedi'i gynnwys gyda Chwmbach i ymuno ag

Aberdâr a wardiau Cynon uchaf yn etholaeth arfaethedig newydd Merthyr ac Aberdâr. Wrth i'r Comisiwn ystyried y rhan hon o Aberaman yn rhan o etholaeth newydd Merthyr/ Aberdâr rydych wedi torri cysylltiad ardal leol mewn gwirionedd ond byddai'r safle tai hwnnw ei hun wedyn yn dod yn "rhan ddatgysylltiedig, lle byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu teithio trwy etholaeth wahanol" – i bob pwrpas i unrhyw un sy'n byw yn yr eiddo hynny y tu ôl i Asda, eu hunig fynediad i'r ffordd i mewn ac allan o'r safle hwnnw yw cylchfan ffordd osgoi Asda Aberaman felly byddai'n rhaid iddynt fynd i weddill ward Aberaman yr ydych chi'n cynnig a fyddai'n etholaeth Pontypridd. Mae'r datblygiad tai hwnnw y tu ôl i Asda Aberaman wedi'i ffinio ar dair ochr gan yr afon, gan lwybr troed dros yr afon i ganol Aberaman, gan droetffordd lwybr troed rhwng Aberaman i Gwmbach ar gyrion gwlypdir ar ochr Aberdâr o'r llwybr troed, ac yna ar ochr arall y tai mae nant arall a'r brif reilffordd sy'n rhedeg tua'r de drwy'r dyffryn, â'i orsaf gyfagos yng Nghwmbach ond nid yw hyn ar gael yn uniongyrchol o'r safle tai hwnnw.

Nid yw isafon dyffryn Aman yng Nghwm Cynon sy'n cynnwys pentrefi Aberaman, Godreaman a Chwmaman yn cysylltu'n uniongyrchol â rhanbarth Pontypridd. Bu ei gysylltiad naturiol ag Aberdâr erioed, ei gysylltiad â chanol tref Aberdâr a'i siopau lleol, ac am ei wasanaethau. Mae llawer o breswylwyr yn defnyddio gwasanaethau meddygol, meddyg teulu, deintydd, optegwyr yn Aberdâr a fydd wedyn yn dod o dan etholaeth wahanol yn eich cynlluniau ac os oes angen unrhyw gymorth AS am ba reswm bynnag, ni fydd yn Aberdâr mwyach ond Pontypridd.

Rwy'n gwrthwynebu cynnig y Comisiwn Ffiniau hwn i rannu Cwm Cynon fel etholaeth gan y bydd hunaniaeth Cynon yn cael ei cholli heb unrhyw gydnabyddiaeth o Gwm Cynon fel etholaeth, a gan anwybyddu ein cysylltiadau daearyddol/ cymunedol/diwylliannol a hanesyddol, a bydd Cynon isaf yn cael ei roi yn etholaeth Pontypridd, nad oes gennym ni yng Ngogledd a De Aberaman unrhyw gysylltiad naturiol â hi, ond mae gennym gysylltiad ag Aberdâr.

Pam y dylid llyncu Cwm Cynon drwy uno yn etholaethau newydd â Merthyr neu Bontypridd? Pam na ellir gadael Cwm Cynon yn ei gyfanrwydd, gan addasu ardaloedd eraill os ydych yn benderfynol o fynd drwy'r cynigion hyn i leihau nifer yr etholaethau ac ASau yng Nghymru drwy addasu niferoedd? Mae Cymoedd De Cymru yn ardaloedd unigryw yn eu rhinwedd eu hunain, ac nid yw'n fater syml o dybio y gellir cysylltu lleoliad yn hawdd â'r hyn yr ydych chi'n credu yw ei gymydog gan nad yw'r adolygiadau Seneddol hyn yn cydnabod daearyddiaeth ein cymoedd a'u cymunedau hanesyddol a materion trafndiaeth, gan nad oes gan bawb eu cludiant preifat eu hunain i deithio'n rhydd o fewn yr etholaeth honno, oherwydd gallai pellter o, er enghraifft dwy neu dair milltir ymddangos yn syml i'r Comisiwn Ffiniau ond efallai y bydd afonydd ffisegol neu fynydd rhwng dau bentref y gallech feddwl amdanynt fel cymdogion ond sydd mewn gwirionedd y naill ochr a'r llall i'r rhaniad ffisegol hwnnw.


Rwy'n gwrthwynebu'n llwyr y cynnig i golli cydnabyddiaeth Cwm Cynon yn etholaeth ac, wrth wneud hynny, colli ein AS Cwm Cynon ein hunain, sy'n

darparu gwasanaeth hanfodol i Gynon, felly ni fydd trigolion lleol Cynon yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli gan Bontypridd gan y bydd y pwyslais ar ranbarth hanesyddol Pontypridd, a bydd ein rhan ni o Gynon yn ôl-ystyriaeth, felly rwy'n ofni y bydd diffyg cynrychiolaeth ac ymgysylltiad gwirioneddol a fydd ond yn gwaethgu cyfranogiad democrataidd Cynon. Rwyf i o'r farn bod y cynnig hwn i hollti ffin Cwm Cynon gan ei ddileu fel etholaeth yn efelychu difaterwch Lloegr ynglŷn â phobl a chymuned Cymru – dysgwch y wers o hanes Cofiwch Dryweryn – penderfyniad Lloegr i foddi Tryweryn a Chapel Celyn, Gogledd Cymru er gwaethaf gwrthwynebiad Cymru er mwyn adeiladu cronfa ddŵr i gyflenwi dŵr i Loegr. Ni fydd y Cymry byth yn anghofio'r weithred hon.

Honnwyd bod yr Adolygiad Ffiniau hwn yn dal i fod ar gam Ymgynghori ar y Cynnig felly gofynnaf i'r Comisiwn ailystyried yn llwyr ddymchwel etholaeth Cwm Cynon, ac adsefydlu Cwm Cynon yn gyflawn, oni bai fy mod yn sinigaidd bod y penderfyniad eisoes wedi'i wneud gan y Comisiwn a llywodraeth y DU, ac y bydd yn hyrddio drwy'r newidiadau hyn ni waeth beth fo'r gwrthwynebiadau gan yr etholwyr. Os felly bydd dirywiad yn y system bleidleisio os aiff hyn yn ei flaen, gan fy mod yn credu na fyddai llawer o drigolion Cwm Cynon yn trafferthu ymgysylltu â phleidleisio gan na fyddent yn teimlo bod Cwm Cynon yn bodoli yng ngolwg y llywodraeth a'r Senedd, felly ni fyddai ganddynt lais democrataidd.

Dylech ailystyried yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud i Gwm Cynon gan nad yw'r cynnig hwn gan y Comisiwn Ffiniau yn newid ffiniau Cwm Cynon, ond yn hytrach yn dileu ffiniau Cwm Cynon ac ni ddylid ei wneud.

Yn gywir





**BCW-9686/ Cllr Arwyn Woolcock/ Rhydaman**

Comisiwn Ffiniau I Gymru

Llawr Gwaelod

Tŷ Hastings

Llys Fitsalan

Caerdydd

CF24 0BL

24 Hydref 2021

Annwyl Syr/ Fadam,

**Ynglŷn ag: Adolygiad o Etholaethau Seneddol**

Cyfeiriai at yr adolygiad cyfredol o Etholaethau Seneddol yng Nghymru a byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn derbyn y sylwadau canlynol mewn gwrthwynebiad i'r cynigion cychwynnol:

Yn gyntaf, hoffwn ddatgan fy ngwrthwynebiad i'r effaith anghymesur y byddai'r cynigion hyn yn ei gael ar Gymru, o ganlyniad i'r bwriad i leihau Etholaethau Seneddol o 40 i 32 - gostyngiad o 20%. Ni ellir ystyried y byddai hyn yn gwella cynrychiolaeth effeithiol, a byddai'n lleihau ymgysylltiad â'r broses ddemocrataidd.

Fel Cynghorydd lleol sy'n cynrychioli ardal etholiadol Brynman Isaf ar Gyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot, rwy'n gwrthwynebu'n chwyrn iawn y cynigion i drosglwyddo ardaloedd Dyffryn Aman a Chwm Tawe Uchaf o Etholaeth Castell-nedd, i Aberhonddu a Maesyfed.

Yn draddodiadol, mae ardaloedd Dyffryn Aman a Chwm Tawe Uchaf naill ai wedi bod yn rhan o etholaethau Castell-nedd neu Gŵyr, a byddai'r cynnig hwn yn hollti'r cysylltiadau hirsefydlog y mae'r ardaloedd hyn wedi eu mwynhau gyda'r ddwy

etholaeth. Yn wir, mae'n ymddangos nad yw'r cynnig cychwynnol yn ystyried cysylltiad cymunedol mor hanfodol bwysig ond yn hytrach yn fodd i gaffael y niferoedd etholiadol i fodloni cwota etholiadol y DU.

Wrth gynnig bod ardaloedd Dyffryn Aman a Chwm Tawe Uchaf yn ffurfio rhan o etholaeth Aberhonddu a Maesfed - etholaeth sydd, y gellid dadlau, eisoes yn rhy fawr yn ddaearyddol - byddai'n creu etholaeth seneddol fwy fyth, na fyddai'n ateb yn dda dibenion etholwyr na'r cynrychiolydd etholedig. Yn wir, yn ôl mapiwr taith yr RAC, mae'r pellter rhwng Trebannws yn ne'r etholaeth newydd arfaethedig, a Bugeildy yn y gogledd, fymryn dros 79 o filltiroedd, gan gymryd 1 awr a 58 munud i deithio rhyngddynt. Y Cyngor a fydd yn gyfrifol am weinyddu'r etholiadau fydd Powys. Mae'n bellter o 60.46 milltir o Drebanws i Neuadd y Sir yn Llandrindod, a hynny'n siwrnai o 1 awr a 28 munud. Mae'r pellteroedd a'r amseroedd teithio hyn yn seiliedig ar deithio mewn car preifat. Ar y gorau, mae teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn anodd iawn, ac ar y gwaethaf, bron yn amhosib.

Mae hi felly'n amlwg bod y cynnig hwn yn hollol annemocrataidd ac anymarferol, ac yn tramgwyddo yn erbyn Rheol 5 yn Atodlen 2 o Ddeddf 1986, sydd yn cyfeirio at "ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth", "unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newid i etholaethau," a'r "anghyfleuster sy'n ganlyniad i newidiadau o'r fath."

Yn ogystal, nid yw'r cynnig cychwynnol yn rhoi unrhyw ystyriaeth i brinder poblogaeth, amddifadedd nac arwahanrwydd daearyddol - ystyriaethau a allai gael effaith andwyol ar allu cynrychiolwyr etholedig i ymgymryd â'r gwaith a ddisgwylir ganddynt gan eu hetholwyr.

Oherwydd yr holl resymau uchod, rwy'n gofyn yn barchus i'r cynnig cychwynnol hwn gael ei roi o'r neilltu, ac i drefniant cwbl newydd gael ei gyflwyno mewn perthynas â Dyffryn Aman a Chwm Tawe Uchaf - cynnig ble byddai'r ardaloedd hyn yn aros o fewn etholaeth Castell-nedd.

Yn gywir



Cynghorydd Arwyn Woolcock

**BCW-9687 / [REDACTED] / Cil-y-coed**

Fel preswylydd Rogiet byddai'n well gen i aros gyda Dwyrain Casnewydd. Mae Jessica Morden yn AS da ac yn gwneud ei gorau dros ein cymuned fel AS Llafur. Does dim ots gan David Davies am gymunedau na'r amgylchedd rydyn ni'n byw ynddo gan hyd yn oed bleidleisio'n ddiweddar i ganiatau rhyddhau carthion crai i'n hafonydd sydd wedi'u llygru'n barod. Llafur nid Ceidwadwyr dros ein pentref ni.

**BCW-9688 / [REDACTED] / Crymych**

Rydych chi'n dweud bod 'rhaid' i ffiniau newid ond heb esbonio pam felly.

Rydyn ni'n cael ein tangynrychioli'n barod a'n hanwybyddu gan senedd San Steffan sy'n trin Cymru fel trefedigaeth a thrwy wneud ardaloedd yn fwy o faint bydd hyn yn sicr yn rhoi llai byth o gynrychiolaeth i ni yn y senedd honno.

Rwy'n gwrthwynebu newid y ffiniau ar y sail yma a bod angen cynrychiolaeth gryfach nid gwannach arnon ni er mwyn i ni sefyll unrhyw siawns o ymdrin â bygythiad newid yn yr hinsawdd a fydd yn mynnu ardaloedd daearyddol llai yn gwneud newidiadau sy'n briodol i bob un ar draws y wlad i gyd.

**BCW-9689/ [REDACTED] / Cil-y-coed**

Mae'r cynnig yn gwneud synwyr i mi. Falch i weld Cil-y-coed yn yr un etholaeth â Chas-gwent a gweddill Sir Fynwy wledig yn hytrach na chael ei osod i mewn gyda Dwyrain Casnewydd.

Bob amser wedi teimlo nad oedd fy mhleidlais i'n gwneud fawr o wahaniaeth o'r blaen gan fod y Blaid Lafur wedi ennill sedd Dwyrain Casnewydd ym mhob etholiad ers i mi fyw yma.

Mae hyn yn creu maes chwarae mwy cytbwys ac yn dileu cryfder y bleidlas Lafur yn fy nhref i.

**BCW-9690/ [REDACTED] Anhysbys**

Ddim yn cytuno â lleihau nifer ASau Cymru

**BCW-9691/ [REDACTED] / Bwlch-gwyn**

Helo, mae'n anhygoel i mi bod yna gynnig i leoliad fy nghod post i gael ei newid i etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy gan Gomisiwn Ffiniau Cymru. Rydym yn bentref bach (Bwlch-gwyn) dim ond 5 milltir o ganol tref Wrecsam ac nid oes gennyn ni unrhyw ymlyniad i etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy. Nid yw'n pentref ni hyd yn oed yn yr un sir!

Pam byddai unrhyw awdurdod synhwyrol yn meddwl ei bod yn gredadwy symud y ffin i gynnwys ein pentref mewn etholaeth sydd wedi'i seilio mwy na hanner awr o yrru i ffwrdd pan fo'r un mae'r pentref yn eistedd ynddi ar hyn o bryd, dim ond yn 8 munud i ffwrdd mewn car ac yn yr un Sir.

Cofion a chan obeithio y bydd synwyr cyffredin yn trechu.

[REDACTED]

**BCW-9692/ [REDACTED] / Caerdydd**

Pam ydy Dwyrain Caerdydd yn cael ei dynodi o hyd fel De Caerdydd a Phenarth, sydd heb unrhyw beth yn gyffredin â nhw a heb gael ei chynrychioli'n deg. Beth am gael Dwyrain Caerdydd a Chaerdydd Ganolog a Phenarth ac yna byddech chi'n gallu cael Tredelerch, Llanrhymni, Trowbridge, Llaneirwg, Pentwyn a Llanedeyrn i gyd fel rhan o ddwyrain Caerdydd. Yn gwneud llawer mwy o synwyr gyda demograffeg ardaloedd.

**BCW-9693 / [REDACTED] / Maesteg**

Mae'n warth yn erbyn democratiaeth bod gan San Steffan reolaeth dros gynifer o agweddau ar fywyd Cymru o hyd, ac eto mae llais Cymru yn cael ei leihau.

**BCW-9694 / [REDACTED] / Cil-y-coed**

Rwy'n teimlo bod yr holl broses o newid ffiniau wedi'i hysgogi'n wleidyddol yn unig i gynorthwyo'r Blaid Geidwadol i ennill seddi ychwanegol ar draul democratiaeth.

Byddai'n golygu colli AS uchel ei pharch (Jessica Morden) sy'n ymgysylltu â'm cymuned i am un sydd hewb fawr neu ddim cysylltiad â'r ardal rwy'n byw ynddi (David Davies).

Mae "cydraddoli" etholaethau ar fersiwn o'r gofrestr etholiadol sydd o bosibl yn hepgor cannoedd o filoedd o bobl, yn enwedig myfyrwyr a mudwyr diweddar *[sic]*. Mae'r newid technegol dyrys yma'n edrych fel symudiad bwriadol, ymosodol i wneud yn siŵr bod yr etholaethau newydd mor gyfeillgar i'r Torïaid â phosibl.

Mae'r newidiadau wedi'u seilio ar ddata sydd allan o ddyddiad erbyn hyn!

Mae gweinidogion y llywodraeth yn cael eu rhwymo gan egwyddor cyfrifoldeb cyfunol i gefnogi polisiâu'r llywodraeth yn y senedd. Os bydd nifer yr AS yn cael ei leihau ond dim lleihad yn nifer gweinidogion y llywodraeth, mae hyn yn golygu y bydd canran is o'r senedd yn gallu dal y llywodraeth i gyfrif.

**BCW-9695/ [REDACTED] / Rhuthun**

Hoffwn fynegi anfodlonrwydd cryf gyda'r bwriad i osod Rhuthun a nifer o bentrefi cyfagos yn Nyffryn Clwyd yn etholaeth Delyn. Nid yw'n cymryd i ystyriaeth

- cysylltiadau lleol - mae Rhuthun yn un o brif drefi Dyffryn Clwyd a Sir Ddinbych ac nid yw'n gysylltiol ag ardaloedd Sir y Fflint

- ffactorau daearyddol - mae Bryniau Clwyd yn ffin ddaearyddol naturiol ac mae wedi bod yn ffin wleidyddol ers y Canol Oesoedd. Mae'r bwriad yma yn anwybyddu'r ffactor ddaearyddol hon yn llwyr ac yn creu ffin newydd sy'n igam ogamu ar hyd llawr y Dyffryn gan hollti cymunedau sy'n rhan o'r un bro mewn modd annaturiol

- ffiniau llywodraeth leol - Rhuthun yw canolfan gweinyddol Sir Ddinbych ond dan y bwriad hwn bydd yn cael ei gynnwys gyda Sir y Fflint

- wedi blynyddoedd o fod yn rhan annaturiol o etholaeth Gorllewin Clwyd sydd ar y cyfan yn hanner o sir Conwy, rwan bydd Rhuthun yn rhan annaturiol arall o etholaeth sydd yn Sir y Fflint yn bennaf. Trefi Dyffryn Clwyd fel Dinbych, Llanelwy, Rhuddlan a'r Rhyl yw cymdogion naturiol Rhuthun yn ddaearyddol ac yn ddiwylliannol fel rhan o'r Sir Ddinbych. Mae llais Rhuthun wedi ei wanhau ers blynyddoedd gan nad yw'n eistedd o fewn etholaeth naturiol sy'n cydffinio gyda'r awdurdod lleol.

Mae gennyf bryderon hefyd am effaith y bwriad ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant o gynnwys Rhuthun, lle mae hanner y trigolion yn siarad Cymraeg, gyda ardal a phoblogaeth lle mae'r ganran yn sylweddol is.

Hoffwn hefyd fynegi fy ngwrthwynebiad cryf gyda'r bwriad i wanhau llais democrataidd pobl Cymru trwy ostwng y nifer o etholaethau ac felly o gynrychiolwyr etholedig.

**BCW-9696 / [REDACTED] / Magwyr**

Mae ein AS presennol Jessica Morden yn cymryd cymaint o ddiddordeb a rhan yn ein cymuned ac yn gwneud cymaint dros y trigolion byddai'n drueni mawr ei cholli a chael rhywun yn y pen draw heb unrhyw gysylltiadau lleol. Bydd yn siom fawr ac yn andwyol i'r bobl leol golli rhywun sy'n ein gwasanaethu cystal os bydd hyn yn mynd yn ei flaen.



**BCW-9697/ [REDACTED] / Cil-y-coed**

Nid wyf o blaid gan fy mod yn etholaeth dwyrain Casnewydd ac rwy bob amser byth yn pleidleisio dros geidwadwyr yn Sir Fynwy maen nhw wedi gwneud yn gyson am yr 20 mlynedd diwethaf wedi pleidleisio dros y ceidwadwyr ac rwy'n teimlo yn anffodus na fydd gan Gil-y-coed sydd heb fod yn ardal geidwadol gynrychiolydd sy'n credu yng ngwerthoedd y bobl maen nhw'n eu gwasanaethu ac nid yw ymddygiad yr Aelod Seneddol ac Aelod y Senedd yn adlewyrchu ymddygiad eu hetholwyr, hefyd fel cyngor gan ei fod yn gyngor dan arweiniad ceidwadwyr mae'n gwneud yn union yr un peth does dim ystyriaeth ganddyn nhw o'r bobl maen nhw'n eu gwasanaethu a chan fod Cil-y-coed o dan drefn y cyngor yna y rhyddid i ddewis Aelod Seneddol ac Aelod Senedd sy'n meddu ar safbwyntiau cywir eu hetholwyr yw'r unig beth sydd gan yr ardal yma er mwyn cael pobl sy'n brwydro ac yn lleisio beth mae'r bobl eisiau ei ddweud. Rwy'n teimlo trwy wneud beth rydych chi'n ei wneud byddwch chi'n ffrwyno hawl y boblogaeth i gael y gynrychiolaeth gywir mewn cylchoedd gwleidyddol ac rydych chi'n rhoi mantais well i 1 blaid wleidyddol yn unig dros y gweddill ac yna nid ydy hynny'n cynrychioli barn wleidyddol wirioneddol poblogaeth Cymru.

**BCW-9698/ [REDACTED] / Rogiet**

Ergyd mawr i mi fyddai colli mynediad i Jessica a bod yn rhan o Ddwyrain Casnewydd. Bydd Sir Fynwy yn dod yn ardal mor enfawr ac yn cynnwys ardaloedd gwahanol iawn sydd ag anghenion gwahanol iawn. Jest am y byddai nifer y bobl sy'n byw yn yr ardal yma'n gytbwys, mae eu ffyrdd o fyw a'u hanghenion yn amrywio'n aruthrol

**BCW-9699/ [REDACTED] / Cil-y-coed**

Rwy'n credu bod dod yn rhan o etholaeth Sir Fynwy yn syniad ardderchog.

Rydyn ni yn sir Sir Fynwy. Mae'n gwneud synwyr perffaith.

Daliwch ati.

**BCW-9700/ [REDACTED] / Porthcawl**

Nid yw ardal yr etholaeth newydd yn adlewyrchu ffiniau llywodraeth leol na chysylltiadau cymunedol.

Prin yw ymlyniad Porthcawl i Bort Talbot, ac mae'n gysylltiedig yn llawer agosach â Phen-y-bont.

Bydd ardal y ffiniau newydd yn gwanhau hunaniaeth leol ac atebolrwydd gwleidyddol yn ddifrifol.



**Comisiwn Ffiniau**  
i Gymru

---

**Boundary Commission**  
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.  
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan  
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819  
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521  
E-bost: [bcw@ffiniau.cymru](mailto:bcw@ffiniau.cymru)